SLIP CYWIRO

Teitl: Monitro lleoedd cadw. Seithfed adroddiad blynyddol o Fecanwaith Ataliol Cenedlaethol Prydain Fawr, 1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth 2016

Sesiwn: 2016/2017

Cm 9387

ISBN yr Argraffiad: 9781474139274
ISBN y We: 9781474139281

Cywiriad:

Tudalen 32
Mae'r testun cyfredol yn darllen:

Mae Cynllun Annibynnol Ymweld â'r Ddalfa Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon (NIPBICVS) yn parhau i fonitro cydymffurfiaeth Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon (PSNI) â Deddf Hawliau Dynol 1998. Yn dilyn argymhellion NPM, roedd gorsafoedd heddlu heb eu dynodi yng Ngogledd Iwerddon yn dod o dan cylch gorchwyl statudol y Cynllun Annibynnol ar Ymweld â'r Ddalfa o fis Mai 2016. Yn dilyn cytundeb yn y cyfnod diwethaf y byddai NIPBICVS yn monitro arestiadau o dan adran 41 Deddf Terfysgaeth 2000, gan ragweld y byddai'r sawl a amheuir efallai yn cael eu cyhuddo o dan ddeddfwriaeth arall, fe arweiniodd argymhellion o adroddiad NIPBICVS at PSNI yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o 41 arestiad adran 168. Bu ymwelwyr â'r ddalfa ganfod yn aml bod gan y sawl yn nalfa'r heddlu anghenion iechyd cymhleth a bod y cynllun goruchwylio adolygiad PSNI o ofal iechyd yn y ddalfa, a fu arwain at ddarparu staff arbenigol newydd a chynlluniau eraill o welliant.

Dylai'r testun ddarllen:

Mae Cynllun Annibynnol Ymweld â'r Ddalfa Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon (NIPBICVS) yn parhau i fonitro cydymffurfiaeth Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon (PSNI) â Deddf Hawliau Dynol

1998. Yn dilyn argymhellion NPM, roedd gorsafoedd heddlu heb eu dynodi yng Ngogledd Iwerddon yn dod o dan gylch gorchwyl statudol y Cynllun Annibynnol ar Ymweld â'r Ddalfa o fis Mai 2016. Bu ymwelwyr â'r ddalfa ganfod yn aml bod gan y sawl a gedwir yn nalfa'r heddlu anghenion iechyd cymhleth. O ganlyniad, fe wnaeth Cynghorydd Annibynnol y Bwrdd Plismona ar Hawliau Dynol argymhelliad yn Adroddiad Blynyddol Hawliau Dynol 2014 a ofynnodd bod PSNI yn adrodd i Bwyllgor Perfformiad y Bwrdd ar gynnydd ei adolygiad o ofal iechyd yn y ddalfa, a fu arwain at ddarparu staff arbenigol newydd a chynlluniau eraill o welliant.

Mis y cywiriad: Ionawr 2017

Ionawr 2017

national
preventive
mechanism

Monitromannaucadw

Seithfed **Adroddiad Blynyddol**
Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol
y Deyrnas Unedig
1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

Monitro mannau cadw

Y Seithfed Adroddiad Blynyddol ar Fecanwaith Ataliol Cenedlaethol y Deyrnas Unedig

1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
trwy Orchymyn ei Mawrhydi
Ionawr 2017

Cm 9387

© Hawlfraint y Goron 2017
Mae'r cyhoeddiad hwn yn drwyddedig o dan delerau Trwydded y Llywodraeth Agored f3.0 heblaw am ble nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Ble rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid priodol yr hawlfraint.

Mae'r cyhoeddiad ar gael ar www.gov.uk/government/publications a
www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/national-preventive-mechanism

Dylid anfon unrhyw ymholiadau yn ymwneud â'r cyhoeddiad hwn atom at:
hmiprisons.enquiries@hmiprisons.gsi.gov.uk neu
Arolygiaeth Carchardai ei Mawrhydi, Victory House, Llawr 6, 30–34 Kingsway, Llundain WC2B 6EX

ISBN Argraffu 9781474139274
ISBN y We 9781474139281

ID 30111633 01/17

Wedi'i argraffu ar bapur yn cynnwys isafswm o 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa ei Mawrhydi

Cynnwys

Cyflwyniad
Gan David Strang, Prif Arolygwr Carchardai ei Mawrhydi ar gyfer yr Alban **4**

Cyflwyniad
Gan John Wadham, Cadeirydd yr NPM **6**

1 Cyd-destun **8**
Ynglŷn â'r Protocol Dewisol ar y Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosb Creulon, Annynol neu Ddiraddiol arall (OPCAT) **9**
Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y DU **10**
Y sefyllfa yn y ddalfa yn ystod y flwyddyn **13**
Cyd-destun gwleidyddol, datblygiadau deddfwriaethol a pholisi **18**

2 Canolbwyntio ar faterion cadw **24**
Arwahaniad - cyfarwyddyd i gyrff monitro'r NPM **25**
Carcharu mewnfudwyr **25**

3 Yr NPM yn 2015–16 **26**
Cryfhau'r NPM **27**
Datblygiadau aelodau penodol **27**
Cydweithio rhwng aelodau'r NPM **32**
Cyflwyno cynigion ac arsylwadau ar ddeddfwriaeth (erthygl OPCAT 19(c)) **33**
Cydweithio rhyngwladol **34**
Hunanasesiad o'r NPM **36**

4 Edrych ymlaen at 2016–17 **38**

5 Atodiadau **40**
I. Geirfa **41**
II. Rhagor o wybodaeth am NPM y DU **43**

Cyflwyniad gan David Strang

Prif Arolygydd Carchardai ei Mawrhydi yn yr Alban

Pleser yw cyflwyno seithfed adroddiad blynyddol Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y Deyrnas Unedig (NPM).

Mae'r NPM yn gyfrifol am fonitro annibynnol mannau cadw ledled y DU. Mae'n cynnwys yr 20 corff sydd â'r pwerau i fynd i mewn i fannau cadw gyda'r diben o ddarparu trosolwg a chraffu ar driniaeth y sawl yn y ddalfa a'r amodau y'u cedwir ynddynt. Bwriad craffu o'r fath yw atal niwed rhag digwydd i bobl yn y ddalfa ac annog arferion da wrth ofalu am y sawl yn y ddalfa. Mae'r NPM yn bodloni goblygiadau'r DU sy'n deillio o'i ymrwymiad i'r Protocol Dewisol ar y Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosb Creulon, Annynol neu Ddiraddiol arall (gelwir hwn yn OPCAT).

Er mwyn cryfhau llywodraethu NPM a gwella ein heffeithlonrwydd, fe benderfynom benodi cadeirydd annibynnol, nad oedd yn dod o un o'r 20 corff sy'n aelodau. Bydd cadeirydd annibynnol yn galluogi i lais yr NPM gael ei glywed yn glir o'r cyrff hynny sy'n aelodau a bydd yn darparu mwy o gefnogaeth i'r holl aelodau ledled y DU. Yn dilyn proses recriwtio a dethol agored, fe benodwyd John Wadham i fod yn gadeirydd annibynnol yr NPM. Mae hwn yn garreg filltir sylweddol ar gyfer yr NPM a bydd yn ei ganiatáu i gynyddu ei effeithlonrwydd.

Rydw i hefyd eisiau cydnabod dylanwad sylweddol Nick Hardwick wrth lunio'r NPM dros y pum mlynedd diwethaf pan roedd yn Brif Arolygydd Carchardai ei Mawrhydi.
Fe weithredodd fel cadeirydd yr NPM trwy gydol y cyfnod hwn ac roedd yn fedrus wrth annog cydweithredu a ffocws clir i waith y cyrff sy'n aelodau ar y cyd. Dymunwn yn dda iddo yn ei rôl newydd fel Cadeirydd y Bwrdd Parôl.

Wrth i'r NPM barhau i aeddfedu fel sefydliad, mae'n dod yn fwy dylanwadol. Mae'n defnyddio llai o'i ynni ac ymdrech ar strwythurau a phrosesau mewnol, ac mae'n gallu canolbwyntio mwy ar wella craffu mannau cadw. Ceir crynodeb o waith pob un o gyrff yr NPM yn yr adroddiad hwn. Mae is-grwpiau'r NPM wedi datblygu cyfleoedd i aelodau rannu arbenigedd ac annog arloesi yn ein gwaith. Mae is-grwp yr Alban wedi cryfhau ei pherthynas gyda Llywodraeth yr Alban. Yn bwysig, fe gyrhaeddodd aelodau'r NPM safle cyffredin ar yr angen am derfyn amser ar gadw mewnfudwyr.

Roedd adroddiad blynyddol y llynedd yn darparu adolygiad manwl o astudiaeth thematig yr NPM ar y defnydd o arwahaniad a charchariad unigol yn y Deyrnas Unedig. Trwy gydol 2015-16 fe ddatblygom y gwaith hwn ymhellach trwy gynhyrchu cyfarwyddyd cynhwysfawr ar gyfer monitro arwahaniad yn y ddalfa. Bydd y cyfarwyddyd hwn yn cael ei orffen a'i gyhoeddi yn 2016-17. Bydd yn galluogi i aelodau NPM fonitro'n fwy trylwyr a chyson, gan ddefnyddio ymagwedd gyffredin, yn seiliedig ar safonau hawliau dynol rhyngwladol. Rydym wedi dewis ar gyfer astudiaeth thematig nesaf yr NPM i astudio'r trosglwyddiad rhwng gwahanol fathau o leoliadau'r ddalfa. Rydym yn gwybod bod nifer o bobl yn cael eu trosglwyddo o un fath o ddalfa i'r llall, yn aml yn croesi ffiniau awdurdodaethol. Bydd astudio'r trosglwyddiadau hyn yn caniatáu i'r NPM adnabod gwersi cyffredin unwaith eto a datblygu cyd-ddealltwriaeth o graffu effeithiol ar draws gwahanol ffiniau sefydliadol.

Mae pob aelod o'r NPM wedi bod yn weithgar wrth lunio a chyflwyno sylwadau ar ddeddfwriaeth a newidiadau polisi sy'n effeithio ar y mannau maen nhw'n eu monitro. Mae hon yn agwedd bwysig o waith yr NPM - nid yn unig monitro mannau cadw, ond cyfrannu at atal triniaeth wael trwy ddylanwadu ar ddeddfwriaeth a pholisi. Yn rhyngwladol, mae'r NPM wedi parhau i gydweithio gydag amrediad eang o sefydliadau eraill: NPMs, academyddion, mudiadau anllywodraethol, cyrff hawliau dynol rhyngwladol, gwledydd sy'n ceisio sefydlu neu ddatblygu eu NPM, a llawer mwy.

Mae mabwysiad Rheolau Nelson Mandela gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig yn dangos y pwysigrwydd o fonitro pob carchar ledled y byd yn y 21ain ganrif. Ma gan yr NPM rôl hanfodol i'w chwarae er mwyn sicrhau bod y safonau rhyngwladol hyn yn cael eu trosi i mewn i gamau gweithredu ymarferol yn ddyddiol yn ein mannau cadw. Mae'r Rheolau hyn yn cynrychioli cam arwyddocaol ymlaen ar gyfer polisi carchardai. Bydd yr NPM yn ceisio hyrwyddo'r safonau hyn a'u rhoi ar waith yn eu gwaith.

Hoffwn ddiolch i holl aelodau'r NPM sydd wedi bod yn weithgar ledled y flwyddyn yn cefnogi gwaith yr NPM. Rwyf yn ddiolchgar hefyd i aelodau o staff y tîm cydlynu, sydd wedi gwneud cyfraniad mor sylweddol at ein gwaith eleni.

Rwyf yn hynod falch bod John Wadham wedi cychwyn ei gyfnod fel cadeirydd annibynnol yr NPM gyda chymaint o egni a brwdfrydedd. Edrychwn ymlaen at weithio gydag ef yn y flwyddyn brysur sydd o'n blaenau.



David Strang
Prif Arolygydd Carchardai ei Mawrhydi yn yr Alban
Cadeirydd yr NPM, Ionawr i Fai 2016

Cyflwyniad gan John Wadham

Cadeirydd yr NPM

Mae gan y DU NPM anarferol iawn. Mae mwyafrif ei 20 corff sy'n aelod yn dyddio yn ôl i gyfnod cyn cytundeb OPCAT y Cenhedloedd Unedig ac roeddent eisoes wedi sefydlu methodoleg ar gyfer arolygu a monitro'r ddalfa pan ddynodwyd yr NPM yn 2009. Mewn gwirionedd, mae modd olrhain tarddiad arolygiadau a monitro yn ôl o leiaf mor bell â John Howard a, yn 1773 pan roedd yn Uchel Siryf Swydd Bedford, ddechreuodd arolygu carchardai yn ei ardal. Cafodd ei synnu gan yr hyn a ddarganfuodd ac fe lansiodd i mewn i rownd o arolygiadau a gannoedd o garchardai ledled Lloegr. Fe gyhoeddodd Howard rhifyn cyntaf *The State of the Prisons* yn 1777 ac roedd yn cynnwys cyfrifon manwl iawn o'r carchardai roedd wedi ymweld â hwy.

Heddiw, os ydych yn cyfri nifer y staff a gwirfoddolwyr sy'n rhan o fonitro'r ddalfa ledled y DU, does dim amheuaeth bod gennym yr NPM mwyaf yn y byd.

Y DU oedd un o brif ddrafftwyr OPCAT ac mae'n falch o enw da'r NPM. Mae gan NPM y DU draddodiad unigryw o arolygwyr proffesiynol ac aelodau o'r gymuned yn ymweld â'r ddalfa, ac mae eu rôl yn gyffredinol yn cael ei ystyried fel gwiriad pwysig o'r hyn sy'n digwydd y tu ôl i'r bariau.

Ond nid yw'n gwaith wedi gorffen. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod ein monitro'n bodloni disgwyliadau rhyngwladol o *fonitro* ataliol. Mae'n rhaid i ni weithio'n galed i adeiladu mwy o gysondeb o ran sut mae gwahanol aelodau'n adnabod triniaeth wael. Ac mae'n rhaid i ni sicrhau bod llywodraethau'r DU a'r awdurdodau sy'n gyfrifol am y sawl yn ddalfa yn deall rôl yr NPM.

Yn 2014, fe benderfynodd aelodau'r NPM benodi cadeirydd annibynnol o'r tu allan i aelodaeth yr NPM er mwyn cryfhau ei reolaeth, yn benodol oherwydd ei strwythur anarferol a chymhleth. Roeddwn yn falch iawn o gael fy nethol fel Cadeirydd yr NPM, yn arbennig gan mai aelodau'r NPM ei hun a wnaeth y penderfyniad. Yn aml, mae penderfyniadau i benodi i swyddi fel y rhain yn cael eu gwneud gan weinidogion y llywodraeth. Fel Cadeirydd, byddaf yn gweithio rhan amser (ac ar sail pro bono) ac rydw i wedi cael fy mhenodi am gyfnod cychwynnol penodol o ddwy flynedd.

Fy swydd yw cynghori a chefnogi'r NPM a'i aelodau i gyflawni ei mandad OPCAT, cynrychioli NPM y DU mewn cyfarfodydd gydag aelodau, y llywodraeth a chyrff rhyngwladol. Fy nghyfrifoldebau yw cadeirio cyfarfodydd yr aelodau, cefnogi aelodau i ddatblygu eu gwaith a chyflawni eu cyfrifoldebau

mewn perthynas â'r NPM, a chynrychioli'r NPM yn gyhoeddus gyda rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys y Cenhedloedd Unedig ac Is-bwyllgor OPCAT (SPT). Tasg allweddol ar gyfer y dyfodol bydd sicrhau bod yr 20 sefydliad, gyda'u gwahanol fandadau, dyletswyddau a phwerau, yn gweithio gyda'i gilydd ac yn unigol ar draws pedair awdurdodaeth y Deyrnas Unedig i ostwng triniaeth wael a sicrhau bod y systemau gorau posib yn eu lle i'w atal rhag digwydd.



John Wadham
Cadeirydd yr NPM, Mai 2016 hyd at nawr

Adran un
Cyd-destun



Ynglŷn â'r Protocol Dewisol ar y Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosb Creulon, Annynol neu Ddiraddiol arall (OPCAT)

Cytundeb hawliau dynol rhyngwladol yw'r Protocol Dewisol ar y Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosb Creulon, Annynol neu Ddiraddiol arall (OPCAT) gyda'r nod o gryfhau'r amddiffyniad o bobl sydd wedi colli eu rhyddid. Roedd ei fabwysiad gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig yn 2002 yn adlewyrchu consensws ymysg y gymuned ryngwladol bod pobl sydd wedi colli'u rhyddid yn arbennig o fregus i driniaeth wael ac y dylai ymdrechion i frwydro yn erbyn triniaeth wael o'r fath ganolbwyntio ar atal. Mae OPCAT yn ymgorffori'r syniad mai'r modd gorau o atal triniaeth wael yn y ddalfa yw gyda system o ymweliadau annibynnol, rheolaidd i'r holl fannau cadw. Mae ymweliadau o'r fath yn monitro triniaeth ac amodau y sawl yn y ddalfa.

Daeth OPCAT i rym ym mis Mehefin 2006. Mae gofyn i wledydd sy'n cadarnhau OPCAT ddynodi 'mecanwaith ataliol cenedlaethol' (NPM). Corff neu grŵp o gyrff yw hwn sy'n archwilio'r driniaeth o'r sawl yn y ddalfa, yn gwneud argymhellion ac yn gwneud sylwadau ar ddeddfwriaeth gyfredol neu ddrafft gyda'r nod o wella triniaeth ac amodau yn y ddalfa.

Er mwyn gwneud ei rôl monitro yn effeithiol, rhaid i'r NPM:

- fod yn annibynnol o'r llywodraeth a'r sefydliadau mae'n eu monitro;
- gael adnoddau digonol i berfformio ei rôl; a
- chael staff gyda'r profiad angenrheidiol a gyda digon o amrywiaeth i gynrychioli'r gymuned mae'n gweithredu ynddi.

Ar ben hynny, rhaid i'r NPM gael y pŵer i:

- gael mynediad at bob man cadw (gan gynnwys y sawl a weithredir gan ddarparwyr preifat);
- gynnal cyfweliadau mewn preifat gyda'r sawl yn y ddalfa a phobl berthnasol eraill;
- ddewis y lleoedd maen nhw eisiau ymweld â hwy a phwy mae'n dymuno cyfweld;
- gael mynediad at wybodaeth am nifer y bobl sydd wedi colli'u rhyddid, nifer y mannau cadw a'u lleoliad; a
- chael mynediad at wybodaeth am driniaeth ac amodau'r sawl yn y ddalfa.

Rhaid i'r NPM hefyd drafod gyda'r Is-bwyllgor ar Atal Artaith (SPT), corff rhyngwladol a sefydlwyd gan OPCAT gyda swyddogaethau gweithredol (ymweld â mannau cadw'r gwladwriaethau sy'n barti a gwneud argymhellion yn ymwneud ag amddiffyn y sawl yn y ddalfa rhag triniaeth wael) a swyddogaethau cynghorol (darparu cymorth a hyfforddiant i'r gwladwriaethau sy'n barti a NPMs). Mae'r SPT yn cynnwys 25 corff annibynnol a diduedd o ledled y byd, ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei weithgareddau.[1] Ar hyn o bryd mae 82 gwladwriaeth sy'n barti i OPCAT, a 64 NPM dynodedig.[2]

1. http://ohchr.org/EN/HRBodies/OPCAT/Pages/OPCATIndex.aspx [cyrchwyd 01/11/16].
2. Y Sefydliad er Atal Artaith, cronfa ddata OPCAT, ar gael ar: http://www.apt.ch/en/opcat-database/ [cyrchwyd 01/11/16].

Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y DU

Fe gadarnhaodd y DU OPCAT ym mis Rhagfyr 2003 a dynodi ei NPM ym mis Mawrth 2009. Cyfrifoldeb llywodraeth y DU oedd dynodi NPM ac fe ddewisodd ddynodi nifer o gyrff cyfredol yn hytrach na chreu NPM un-corff, newydd. Roedd hyn yn cymryd i ystyriaeth y ffaith bod mathau o'r ddalfa yn y DU eisoes yn destun monitro gan gyrff annibynnol, fel y ragwelwyd gan OPCAT, a'r gwahanol systemau gwleidyddol, cyfreithiol a gweinyddol sy'n bodoli ym mhedair cenedl y DU. Fe wnaethpwyd dynodiadau i'r NPM yn 2009 a 2013, a bellach mae 20 corff unigol yn llunio'r NPM.

Yr Alban
Yr Arolygiaeth Gofal (CI)
Arolygiaeth Cwnstabliaeth ei Mawrhydi yn yr Alban (HMICS)
Arolygiaeth Carchardai ei Mawrhydi ar gyfer yr Alban (HMIPS)
Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yr Alban (ICVS)
Comisiwn Lles Meddwl yr Alban (MWCS)
Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban (SHRC)

Gogledd Iwerddon
Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon (CJINI)
Byrddau Monitro Annibynnol (Gogledd Iwerddon) (IMBNI)
Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon (NIPBICVS)
Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd (RQIA)

Cymru a Lloegr
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CSSIW)
Y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC)
Comisiynydd Plant Lloegr (CCE)
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (HIW)
Arolygiaeth Cwnstabliaeth ei Mawrhydi (HMIC)
Arolygiaeth Carchardai ei Mawrhydi (Carchardai EM)
Sefydliad Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa (ICVA)
Byrddau Monitro Annibynnol (IMB)
Arsyllwyr Lleyg (LO)
Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau (Ofsted)

Mae'r cyrff sy'n rhan o NPM y DU yn monitro gwahanol fathau o fannau cadw ar draws yr awdurdodaethau, gan gynnwys carchardai, dalfa'r heddlu, dalfa'r llysoedd, cyfleusterau dalfa'r tollau, llety diogel i blant, cyfleusterau mudo, iechyd meddwl a dalfa'r milwraeth, fel y dangosir ar dudalen 11.

Mae gofyniad hanfodol OPCAT - bod pob man cadw yn cael eu monitro'n annibynnol - yn cael ei bodloni gan aelodau unigol o'r NPM neu gan aelodau sy'n gweithio mewn partneriaeth â'i gilydd. Mae canfyddiadau manwl o driniaeth ac amodau'r sawl yn y ddalfa yn cael eu cyhoeddi yn adroddiadau arolwg neu adroddiadau blynyddol pob aelod o'r NPM.

MANNAU CADW	Awdurdodaeth			
	Lloegr	Cymru	Yr Alban	Gogledd Iwerddon
Carchardai a Sefydliadau Troseddwyr Ifanc	Carchardai EM gyda CQC ac Ofsted	Carchardai HMI gyda HIW	HMIPS gyda CI a SHRC	CJINI a Charchardai EM gyda RQIA
	IMB			IMBNI
Dalfa'r heddlu	HMIC a Charchardai EM		HMICS	CJINI gyda RQIA
	ICVA		ICVS	NIPBICVS
Hebryngwyr y llys a'r ddalfa	Arsyllwyr Lleyg a Charchardai EM		HMIPS	CJINI
Plant mewn llety diogel	Ofsted (ar y cyd â Charchardai EM mewn perthynas â chanolfannau hyfforddiant diogel)	CSSIW	CI	RQIA
				CJINI
Plant (pob lleoliad cadw)	CCE		CI	
Cadw o dan gyfraith iechyd meddwl	CQC	HIW	MWCS	RQIA
Colli rhyddid[3] a dulliau diogelu eraill mewn iechyd a gofal cymdeithasol	CQC	HIW	CI a MWCS	RQIA
		CSSIW		
Carcharu mewnfudwyr	Carchardai EM			
	IMB			
Cadw milwrol	Carchardai EM			
Cyfleusterau cadw'r tollau	HMIC, Carchardai EM a HMICS			

Cyfarfodydd busnes chwemisol yr NPM yw y prif fforwm i aelodau rannu canfyddiadau, arfer gorau, profiadau a gwersi o fonitro gwahanol fathau o ddalfeydd ac awdurdodaethau gwahanol. Mae cynllun busnes yr NPM yn cael ei gytuno gan aelodau ac mae penderfyniadau eraill yn cael eu gwneud yn y cyfarfodydd hyn. Eleni, fe gynhaliwyd cyfarfodydd busnes ym mis Tachwedd 2015 (Caeredin) ac ychydig ar ôl diwedd y flwyddyn busnes ym mis Ebrill 2016 (Belfast).

Cadeirydd yr NPM

Yn ystod y flwyddyn hon, fe symudodd yr NPM ymlaen gyda'i gynlluniau i benodi cadeirydd annibynnol, er mwyn cynghori a chefnogi'r NPM i fodloni ei mandad. Bydd deiliad y swydd:

- yn cadeirio cyfarfodydd Grŵp Llywio'r NPM dair neu bedair gwaith y flwyddyn a chyfarfodydd busnes yr NPM ddwywaith y flwyddyn
- yn cefnogi aelodau'r NPM i ddatblygu gwaith yr NPM a'i roi ar waith ac i fodloni eu cyfrifoldebau NPM;
- yn siarad yn gyhoeddus ar ran yr NPM ac yn cynrychioli'r NPM mewn cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid allanol.

Fe gylchredwyd a chyhoeddwyd hysbyseb ar gyfer y cadeirydd ym mis Tachwedd 2015 ac roedd panel o bedwar aelod o grŵp llywio'r NPM ac un aelod panel annibynnol (Yr Athro Rachel Murray o Brifysgol Bryste) wedi creu rhestr fer a chyfweld ag ymgeiswyr. Yng nghyfarfod busnes Ebrill 2016, fe

3. Bydd y trefniadau diogelu cyfreithiol rhag colli rhyddid yn berthnasol i Gymru a Lloegr yn unig ond mae sefydliadau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ymweld â chyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol ac yn eu harolygu ble gallai pobl fod wedi colli eu rhyddid.

dderbyniodd aelodau'r NPM argymhelliad y panel i benodi John Wadham yn gadeirydd newydd yr NPM. Mae hwn yn ddatblygiad sylweddol ar gyfer yr NPM. Fe ddechreuodd John Wadham yn y rôl ar 12 Mai 2016.

Cyn penodi cadeirydd, ac yn dilyn ymadawiad Nick Hardwick, Prif Arolygwr Carchardai (Cymru a Lloegr) ym mis Chwefror 2016, fe gynigodd grŵp llywio'r NPM bod David Strang, Prif Arolygydd Carchardai'r Alban, yn gweithredu fel cadeirydd dros dro. Fe wnaeth y rôl o fis Ionawr i fis Mai 2016.

Cydlynu'r NPM

Mae cydlynu yn hanfodol er mwyn rhoi'r OPCAT ar waith yn llawn ac yn effeithiol yn y DU, o ystyried ystent a chymhlethdod strwythur aml-gorff anarferol NPM y DU. Mae gan bob aelod o'r NPM mandad, pwerau a chylch gorchwyl gwahanol ac maen nhw'n gosod eu blaenoriaethau eu hunain ar gyfer monitro'r ddalfa yn ogystal â chyfrannu at flaenoriaethau'r NPM ar y cyd.

Mae Carchardai EM yn cyflawni'r rôl o gydlynu'r NPM ac mae'r swyddogaeth hon yn cael ei pherfformio gyda'r diben o:

- hyrwyddo cydlyniad a cyd-ddealltwriaeth o OPCAT ymysg aelodau'r NPM;
- annog cydweithio a rhannu gwybodaeth ac arfer da rhwng aelodau'r NPM yn y DU;
- hwyluso gweithgareddau ar y cyd rhwng aelodau ar faterion sy'n bwysig i bawb;
- trafod gyda'r SPT, NPMs eraill a chyrff hawliau dynol rhyngwladol perthnasol eraill;
- rhannu arbenigedd a phrofiad rhwng NPM y DU a NPMs mewn gwladwriaethau eraill;
- cynrychioli'r NPM yn gyffredinol i'r llywodraeth a rhanddeiliaid eraill yn y DU;
- paratoi'r adroddiad blynyddol a chyhoeddiadau eraill.

Mae swyddogaeth cydlynu, gweithgareddau a llywodraethu'r NPM yn cael eu goruchwylio gan grŵp llywio o bum aelod o'r NPM sy'n cwrdd yn rheolaidd ac sy'n gynrychiadol o aelodau ym mhedair cenedl y DU a gwahanol gylchoedd gorchwyl y sefydliadau sy'n rhan o'r NPM.

Grŵp llywio NPM

Mae grŵp llywio'r NPM yn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau rhwng cyfarfodydd busnes, ac yn datblygu cynllun busnes yr NPM a chynigion i aelodau.

Bu'r grŵp llywio gwrdd tair gwaith yn ystod y flwyddyn (Mai, Medi a Chwefror).

Ym mis Tachwedd 2015, fe derfynodd HMIC ei gyfnod ar y grŵp llywio a chawsant eu disodli gan ICVA. Ar yr un pryd, fe ail-etholwyd RQIA a HMIPS am ail dymor. Ar ddiwedd mis Mawrth 2016, dyma oedd aelodaeth grŵp llywio'r NPM:

- Peter Clarke, Carchardai EM
- Theresa Nixon, RQIA
- David Strang, HMIPS
- Kevin Barker, CSSIW
- Katie Kempen, ICVA

Is-grwpiau'r NPM

Fe barhaodd tri is-grŵp yr NPM i weithredu trwy gydol y flwyddyn.

Mae is-grŵp yr Alban, sy'n cydlynu gweithgareddau'r NPM yn yr Alban, yn darparu cefnogaeth i aelodau'r NPM, yn codi proffil gwaith yr NPM ac yn gwella'r cyswllt gyda Llywodraeth yr Alban, ac fe gawson nhw ddau gyfarfod yn ystod y flwyddyn. Fe'i cadeirir gan Brif Arolygydd Carchardai ei Mawrhydi yr Alban.

Bu'r rhwydwaith iechyd meddwl, sy'n dod â gwahanol aelodau ynghyd, oll gyda diddordeb arbenigol mewn ardaloedd perthnasol i ddalfeydd iechyd meddwl yn y DU, gwrdd ddwywaith yn ystod y flwyddyn. Mae'r is-grŵp hwn yn rhoi cyfle i sefydliadau gyda chyfrifoldebau dros fonitro ac amddiffyn pobl mewn lleoliadau cadw iechyd a gofal cymdeithasol i weithio gyda'i gilydd ar faterion sy'n ymwneud yn benodol ag effeithiau penodol iechyd meddwl. Cafodd ei gadeirio gan y Comisiwn Ansawdd Gofal.

Roedd is-grŵp yr NPM, sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc yn ddalfa, wedi'i gadeirio gan Gomisiynydd Plant Lloegr, yn parhau i weithredu fel mecanwaith ar gyfer aelodau NPM i gyfnewid gwybodaeth a chudd-wybodaeth, ac i ystyried cyd-weithio ar faterion yn ymwneud â phlant yn y ddalfa. Bu'r grŵp gwrdd bedair gwaith yn ystod y flwyddyn.

Y sefyllfa yn y ddalfa yn ystod y flwyddyn

Plant yn y ddalfa

Mae nifer y plant yn y ddalfa wedi parhau i gwympo bob yn dipyn ledled y DU.[4] Yng Nghymru a Lloegr, fe gwympodd nifer yr arestiadau gan 13% rhwng Mawrth 2014 a Mawrth 2015.[5] Fodd bynnag, mae aelodau'r NPM yn adrodd bod plant yn treulio mwy o amser yn y ddalfa ac yn fwyfwy bregus. Rhwng y blynyddoedd yn gorffen Mawrth 2010 a Mawrth 2015 yng Nghymru a Lloegr, roedd cynnydd sylweddol yn nifer y digwyddiadau o hunan-niwed, y defnydd o ataliadau ac ymosodiadau, o'i gymharu â maint y boblogaeth yn y ddalfa.[6] Ar ben hynny, tra bod y boblogaeth gyffredinol yn y ddalfa wedi cwympo, mae'r gor-gynrychiolaeth o bobl ifanc dduon a lleiafrifol ethnig wedi cynyddu.[7] Yn ein harolygiadau fe ddarganfuwyd bod pedwar o'r pum sefydliad troseddwyr ifanc (YOI) yng Nghymru a Lloegr 'ddim yn ddigon da' o ran diogelwch. Er bod y canlyniadau o ran parch ac adsefydlu yn well yn gyffredinol, roedd angen gwella'r canlyniadau i blant yn gyffredinol. Codwyd pryderon sylweddol hefyd o arolygiadau dwy ganolfan hyfforddiant diogel (STC), yn benodol yn ymwneud ag ymddygiad staff a diogelwch plant. I'r gwrthwyneb, fe welodd aelodau'r Alban gynnydd arwyddocaol wrth ddal pobl ifanc ar eu harolygiadau, gyda chyflwyniad

4. Yma, mae'r ddalfa'n golygu plant ar remand neu wedi'u dedfrydu. Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer Cymru a Lloegr (Awst 2016) *Data'r Ddalfa Ieuenctid*, ar gael ar: https://www.gov.uk/government/statistics/youth-custody-data [cyrchwyd 01/11/2016]. Yng Ngogledd Iwerddon, mae ffigurau o Ganolfan Cyfiawnder Ifanc Woodlands (yr unig gyfleuster ar gyfer plant yn system y carchardai) wedi cwympo o 211 yn 2012–13 i 163 yn 2015–16. Yn yr Alban, mae nifer y sawl dan 18 ar gyfartaledd yn y ddalfa wedi gostwng 72% o 223 yn 2006 i 62 yn 2015: http://www.gov.scot/publications/2015/12/5123 [cyrchwyd 01/11/16].
5. Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer Cymru a Lloegr (Ionawr 2016) *Ystadegau cyfiawnder ieuenctid blynyddol: 2014 i 2015*, ar gael ar: https://www.gov.uk/government/statistics/youth-justice-annual-statistics-2014-to-2015 [cyrchwyd 01/11/16].
6. Mae nifer y digwyddiadau o hunan-niwed fesul 100 o blant a gedwir y mis wedi codi o 5.3 i 7.7; y cynnydd cyfatebol ar gyfer y defnydd o ataliadau yw 17.6 i 28.2; ac ar gyfer ymosodiadau, o 9 i 16.2. Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer Cymru a Lloegr (Ionawr 2015) *Ystadegau cyfiawnder ieuenctid blynyddol: 2014 i 2015*, ar gael ar: https://www.gov.uk/government/collections/youth-justice-statistics [cyrchwyd 01/11/16].
7. Yn y flwyddyn yn gorffen Mawrth 2010, roedd 27% o blant yn y ddalfa o gefndir lleiafrifol ethnig; erbyn y flwyddyn yn gorffen Mawrth 2016, roedd y gyfran honno wedi codi i 41%. Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer Cymru a Lloegr (Ionawr 2015) *ibid.*

mwy o gefnogaeth i gynnal cysylltiadau teuluol, yn ogystal â chanlyniadau cadarnhaol i nifer, er roedd angen gwella gofal iechyd.

Canolfan Hyfforddi Ddiogel Medway

Ym mis Ionawr 2016, bu'r BBC ddarlledu rhaglen Panorama a oedd yn dangos, mewn ffilm gudd, camdriniaeth plant gan staff yn y Ganolfan. O ganlyniad, fe roddwyd y ganolfan, a oedd yn cael ei redeg gan G4S, dan gyfrifoldeb uniongyrchol y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr. Fe ddiswyddwyd nifer o'r aelodau o staff a oedd yn rhan o'r camdriniaeth a'r esgeulustra, ac fe arestiwyd 12. Mae ymchwiliadau troseddol yn parhau. Fe gynhaliodd aelodau o'r NPM arolygon yn fuan ar ôl i'r camdriniaeth ddod i'r amlwg, nid yn unig oherwydd pryderon efallai nad oedd arolygon blaenorol wedi canfod y materion difrifol a nodir yn y rhaglen ddogfen. Yn yr ymweliadau hyn, fe fabwysiadwyd ymagwedd newydd gan fonitoriaid yr NPM er mwyn sicrhau bod yr holl faterion allweddol yn cael eu hystyried a bod pobl ifanc a staff yn gallu mynegi eu barn. Mae'r ymagwedd newydd hon bellach wedi cael ei hadlewyrchu mewn methodoleg ddiwygiedig ar gyfer arolygu'r Ganolfan. Mae'r achos yn pwysleisio'r pwysigrwydd o fireinio methodoleg arolygon yn barhaus ac mae wedi cael ei drafod yn fanwl gyda'r NPM. Fe ddarganfuwyd nifer o fethiannau yn ystod ail-arolygiad Medway, ac fe sefydlwyd Bwrdd Gwella gan y llywodraeth, yn dilyn argymhellion gan aelodau'r NPM, i fonitro gwelliant a sicrhau bod argymhellion yn cael eu rhoi ar waith.

Dalfeydd iechyd a gofal cymdeithasol

Roedd dalfeydd o dan Ddeddf Iechyd Meddwl (MHA) 1983 yn Lloegr yn parhau i gynyddu am resymau nad oedd yn glir. Yn ystod 2014–15 roedd 58,399 arest o dan y MHA, cynnydd o 5,223 (neu 9.8%) o'i gymharu â 2013–14 (53,176).[8] Roedd hyn yn barhad o dueddiad o niferoedd yn codi yn y carchar yn ystod y blynyddoedd blaenorol. Yn ail hanner 2014-15, fe gadwyd 35% o'r boblogaeth cleifion iechyd meddwl o dan y MHA. Er bod y nifer gynyddol o gleifion a gedwir wedi bod yn newid graddol, mae wedi bod yn newid sylweddol o batrymau y gorffennol o'r defnydd o orfodaeth yng nghyfraith iechyd meddwl, gyda 5% o gleifion yn cael eu cadw yn y 1970au ac 8% ar gyfartaledd erbyn canol y 1990au.[9]

Gan adlewyrchu patrymau ar draws y DU, yn yr Alban roedd nifer y digwyddiadau o garchariad o dan Ddeddf Iechyd Meddwl (Gofal a Thriniaeth) (Yr Alban) yn parhau i gynyddu. Yn 2015-16 roedd 2,193 digwyddiad o garchariad brys (sy'n gallu para hyd at 72 awr), cynnydd o 9.3% ar y flwyddyn flaenorol, ac o 22.8% ers 2011-12. Roedd cynnydd o 2.6% yn nifer y carchariadau tymor byr (hyd at 28 niwrnod) ac fe gododd cyfanswm y gorchmynion triniaeth orfodol (hyd at chwe mis) gan 8% i 1,366.

Yng Nghymru fe gynyddodd nifer y ceisiadau rheoliadau colli rhyddid 16 gwaith o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o 631 cais yn 2013-14, i 10,679 cais rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2015. Mae hyn yn rhannol oherwydd effeithiau parhaus ehangiad o'r diffiniad cyfreithiol o 'golli rhyddid' yn 2014. Roedd hefyd pryder parhaus ar draws y NPM bod yna fannau o garchariad 'de facto' nad sy'n destun

8. Data o'r Ganolfan Gwybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2015) *Cleifion a gadwyd yn flaenorol mewn ysbytai dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, a chleifion sy'n destun triniaeth dan oruchwyliaeth yn y gymuned: Defnydd o'r Deddf Iechyd Meddwl: Ystadegau Blynyddol, 2014/15*, ar gael ar: http://content.digital.nhs.uk/catalogue/PUB18803/inp-det-m-h-a-1983-sup-com-eng-14-15-rep.pdf [cyrchwyd 01/11/16].

9. Ar 31 Rhagfyr 1975, roedd 146,718 o gleifion wedi'u lletya mewn ysbytai iechyd meddwl ac anabledd dysgu, gyda 7,680 ohonynt wedi'u cadw dan MHA 1959. *Adolygiad o Ddeddf Iechyd Meddwl 1959, Cmnd 7320*, t.103. Fe gymerir data'r 1990au o Hoggett, B (1996) *Mental Health Law.* Argraffiad Pedwar. Llundain: Sweet & Maxwell, t.8.

unrhyw system arolygu neu fonitro. Ym mhob rhan o'r DU, mae angen i'r arolygiaethau perthnasol ystyried sut gallan nhw helpu darparu sicrwydd am ganlyniadau i'r bobl hynny sy'n byw mewn llety â chymorth. Tra bod yr asiantaethau sy'n darparu gofal a chefnogaeth yn y lleoliadau hyn yn destun rheoliad ac arolygu, nid yw'r lleoliadau eu hunain.

Carcharu mewnfudwyr

Mae nifer y bobl a gedwir mewn carchardai mewnfudwyr yn parhau i gynyddu. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2016, roedd 32,163 o bobl yn mynd i mewn i garchardai mewnfudwyr, a oedd yn cynrychioli cynnydd o 16% yn nifer y bobl mewn canolfannau cadw o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.[10] I'r gwrthwyneb, mae nifer y plant sy'n mynd i mewn i'r ddalfa wedi cwympo dros 90% dros y pum mlynedd diwethaf, ac yn y cyfnod adrodd hwn roedd 24% yn is na'r flwyddyn flaenorol.[11]

Fe soniodd aelodau'r NPM am bryderon yn ymwneud â'r awyrgylch tebyg i garchar mewn nifer o ganolfannau cadw mewnfudwyr (IRC), defnydd camweithredol ac anghyson o broses Rheol 35 (gyda'r nod o amddiffyn y sawl sydd wedi cael eu harteithio neu eu masnachu, ymhlith y sawl mwyaf agored i niwed) ym mhob IRC a phrosesau amddiffyn annigonol yng Nghanolfan Yarl's Wood sy'n cadw menywod. Yn ystod y flwyddyn yn gorffen Mawrth 2016, fe adawodd 32,610 person y ddalfa, ac o'r rhain, roedd 63% wedi bod yn y ddalfa am llai na 29 niwrnod. Fodd bynnag, roedd pryderon yn parhau bod y sawl yn y ddalfa yn cael eu cadw am gyfnodau hir ac amhendant.

Sied Nwyddau Longport

Yn ystod arolwg o'r cyfleusterau cadw mewnfudo tymor byr ym mhorthladd Dofr yn haf 2015, fe welodd arolygwyr Carchardai EM bod sied nwyddau yn cael ei defnyddio i ddal mudwyr dros dro. Roedd mudwyr a oedd yn cyrraedd yn y dirgel i'r DU trwy Twnnel y Sianel yn cael eu dal yn Sied Nwyddau Longport yn Folkestone cyn cael eu symud i ystafell gadw yn Dofr neu Frontier House. Dywedodd staff y Swyddfa Gartref wrth arolygwyr mai nid lle o ddalfa oedd y sied nwyddau, ond ar ôl mynnu gweld y cyfleuster, fe welodd yr arolygwyr nad oedd y bobl a gadwyd yno yn rhydd i adael ac nid oeddent wedi derbyn awdurdod cyfreithiol i gadw dogfennau. Roedd arolygwyr yn pryderu am yr awyrgylch gwbl annerbyniol ble roedd pobl yn cael eu cadw. Er bod mwyafrif y carcharorion yn treulio llai na 12 awr yno, y cyfnod hiraf oedd 21 awr a 25 munud, sef cyfnod dal plentyn ar ei ben ei hun. Roedd dros 500 o bobl yn cael eu cadw yn y sied nwyddau dros gyfnod o fis, gan gynnwys 90 plentyn. Nododd yr arolygwyr nad oedd gan y carcharorion ddigon o fwyd a bod yr amodau yn ddiffygiol o ran gwedduster ac roeddent yn fudr. Tra ei bod yn glir bod straen ar isadeiledd yn yr ardal yn ystod cyfnod pan roedd cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y mudwyr yn cyrraedd o Ffrainc, fe ddigwyddodd yr arolwg ar y cyfleuster hwn fisoedd ar ôl i'r cynnydd hwn gychwyn, ac roedd yn dangos nad oedd y cynllunio wrth gefn gan y sawl a oedd yn gyfrifol wedi mynd yn ddigon pell, yn ddigon cyflym. Mae'r cyfleuster bellach wedi cau.

10. Dyma'r ffigurau ar gyfer canolfannau cadw mewnfudwyr ond nid ydynt yn cynnwys y sawl a gadwyd o dan bwerau mewnfudo mewn cyfleusterau cadw tymor byr di-breswyl, gorsafoedd heddlu, neu'r sawl a gedwir mewn carchardai o dan bwerau'r ddeddf mewnfudo. Ystadegau Cenedlaethol y Swyddfa Gartref (Mai 2016) *Ystadegau mewnfudo, Ionawr i Fawrth 2016, Cadw*, ar gael ar: https://www.gov.uk/government/statistics/immigration-statistics-january-to-march-2016 [cyrchwyd 01/11/16].

11. Fe gadwyd 110 o blant mewn canolfannau cadw mewnfudwyr yn ystod y cyfnod adrodd. Ystadegau'r Swyddfa Gartref (Mai 2016) *ibid.*

Dalfa'r heddlu

Fe soniodd rhai aelodau o'r NPM yng Nghymru a Lloegr am ychydig gynnydd wrth wneud defnydd mwy effeithlon o ystafelloedd y ddalfa, yn ogystal â nifer y bobl a gedwir yn nalfa'r heddlu fel man o ddiogelwch o dan adran 136 o'r DdIM ac roedd nifer yr arestiadau o blant yn parhau i gwympo.[12] Fodd bynnag, roedd gwelliannau'n anghyson ar draws y rhanbarthau ac roedd lles pobl fregus yn y ddalfa yn dal i fod yn bryder. Yng Nghymru a Lloegr, fe soniodd aelodau bod pobl bregus, megis plant a phobl gyda materion iechyd meddwl, yn rhy aml ddim yn ddalfa oherwydd eu bod wedi cyflawni trosedd ond oherwydd eu bod yn berygl i'w hunain, ac y gellir osgoi hyn pe byddai trefniadau eraill wedi bod ar gael gan yr asiantaethau perthnasol.[13]

Ymhlith y materion eraill a nodwyd ar draws y DU roedd: risgiau yn ymwneud â'r defnydd o rym, ansawdd amrywiol asesiadau risg yn y ddalfa, a gor-gynrychiolaeth fawr a chanlyniadau cyfrannol gwaeth grwpiau duon a lleiafrifol ethnig yn y ddalfa.

Carchar

Gan barhau o'r llynedd, roedd gostyngiad mewn canlyniadau ar gyfer carcharorion yng Nghymru a Lloegr o bryder mawr i aelodau'r NPM, sydd hefyd wedi gweld cynnydd mewn digwyddiadau o drais. Yn ystod 2015 roedd 22,195 ymosodiad cofnodedig mewn carchardai, cynnydd o 31% o'r flwyddyn flaenorol, tra bod digwyddiadau o ymosodiad difrifol wedi codi 26%.[14]

Yn y cyfnod adrodd, roedd dros 34,586 digwyddiad cofnodedig o hunan-niwed, cynnydd o 27%, gyda chynnydd o 22% yn nifer yr unigolion a oedd yn hunan-niweidio. Roedd hefyd 105 marwolaeth hunanachosedig yn y carchar, cynnydd o 28%.[15]

Fe nodwyd cyffredinolrwydd cynyddol sylweddau seicoweithredol newydd/gwahanol (NPS) fel y bygythiad mwyaf difrifol i ddiogelwch y system carchardai ar hyn o bryd.[16] Gellir cysylltu'r sylweddau synthetig hyn, a elwid yn flaenorol yn 'anterth cyfreithlon',[17] nid yn unig â thrais a'r dyled a bwlio perthnasol, ond hefyd ag afiechydon difrifol, marwolaethau hunanachosedig a hunan-niwed a oedd yn newid bywyd.[18]

12. Gweler Cyngor Cenedlaethol Swyddogion yr Heddlu (2016) *Defnydd o Adran 136 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yn 2015-16 (Cymru a Lloegr)* a Chynghrair Howard (Hydref 2016) ' Arestiadau plant yng Nghymru a Lloegr yn cwympo 59% mewn pum mlynedd', ar gael ar http://howardleague.org/news/childarrests2015/ [cyrchwyd 22/11/16].

13. Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM (Mawrth 2015) *Lles pobl fregus yn nalfa'r heddlu*, ar gael ar: http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic/publications/the-welfare-of-vulnerable-people-in-police-custody/ [cyrchwyd 01/11/16].

14. Roedd 2,953 ymosodiad difrifol a gofnodwyd rhwng Mawrth 2015-16. Gweler y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Gorffennaf 2016) *Bwletin Ystadegau Diogelwch yn y Ddalfa: Mawrth 2016*, ar gael ar: https://www.gov.uk/government/statistics/safety-in-custody-quarterly-update-to-june-2016 [cyrchwyd 01/11/16].

15. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Gorffennaf 2016) *ibid.*

16. Prif Arolygwr Carchardai EM ar gyfer Cymru a Lloegr (Rhagfyr 2015) *Patrymau newidiol o gamddefnyddio sylweddau mewn carchardai i oedolion ac ymatebion gwasanaethau*, ar gael ar: https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/inspections/changing-patterns-of-substance-misuse-in-adult-prisons-and-service-responses/ [cyrchwyd 01/11/16].

17. Roedd sbeis a NPS eraill heb eu dosbarthu yng nghyfraith y DU tan fis Mai 2016 pan ddaeth y Ddeddf Sylweddau Seicoweithredol i rym, felly yn dechnegol roeddent yn gyfreithlon er nid oeddent byth yn cael eu caniatáu o fewn lleoliadau cadw.

18. Yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf (Gorffennaf 2016) *Bwletin Learning Lessons: Sylweddau Seicoweithredol Newydd*, ar gael ar: http://www.ppo.gov.uk/wp-content/uploads/2015/07/LLB_FII-Issue-9_NPS_Final.pdf#view=FitH [cyrchwyd 01/11/2016].

Yn wahanol i nifer o ystâd carchardai i ddynion, roedd canlyniadau cyffredinol i garcharorion yn yr ystâd i fenywod yn dal yn weddol dda. Fodd bynnag, roedd y nifer uchel o farwolaethau hunanachosedig yn yr ystâd i fenywod yng Nghymru a Lloegr yn destun pryder. Yn y 12 mis i Fehefin 2016, roedd 11 marwolaeth hunanachosedig, gan gynrychioli dros 10% o'r holl farwolaethau hunanachosedig yn y cyfnod er bod menywod yn cynrychioli llai na 5% o boblogaeth y carchar. Ar ben hynny, bu dwy fenyw trawsrywiol a gadwyd mewn carchardai dynion hefyd ladd eu hunain yn ystod y flwyddyn. [19] Roedd menywod hefyd yn parhau i gael cyfraddau hunan-niwed llawer uwch na dynion.[20] Fe gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2015 y byddai carchar menywod Llundain, Holloway, yn cau.

Yn yr Alban, fe welodd aelodau flwyddyn o sefydlogrwydd cymharol yn y sefydliadau a arolygwyd, er roedd hefyd bryderon am y defnydd o NPS.[21] Yng Ngogledd Iwerddon fe dynnodd arolwg sylw at bryderon sylweddol yng ngharchar diogelwch uchel Maghaberry.

Carchar Maghaberry

Ym mis Mai 2015, fe gynhaliodd CJINI, Carchardai Ei Mawrhydi, RQIA ac Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant Gogledd Iwerddon arolwg dirybudd o Garchar Maghaberry. Roedd eu hadroddiad yn hynod feirniadol ac yn cynnwys manylion o fethiannau sylweddol yn y carchar, sy'n dal carcharorion paramilwrol ar wahân o gefndiroedd Teyrngarwr a Gweriniaethol yn ogystal â rhai eraill. Roedd y carchar mewn argyfwng, gyda'r arweiniad yn methu â sicrhau diogelwch a sefydlogrwydd, i'r graddau bod yr arolygwyr yn pryderu y gallai anhrefn difrifol neu golledion bywyd ddigwydd os nad oedd y carchar yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd ar frys. Roedd arolygwyr yn pryderu bod y sgil effeithiau o weithredu system gwahanedig yn Maghaberry yn cael effaith negyddol sylweddol ar fywyd dyddiol y 900 a mwy o ddynion sy'n cynrychioli mwyafrif ei boblogaeth. O ystyried difrifoldeb eu pryderon, fe ddychwelodd yr arolygwyr am arolwg dilynol ym mis Ionawr 2016. Fe welson nhw fod nifer o'r materion o fewn y carchar wedi sefydlogi, ond roedd dal gwaith sylweddol i'w wneud.

19. Arolygiaeth Carchardai EM (Gorffennaf 2016) *Adroddiad Blynyddol 2015-16*, ar gael ar: https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/inspections/annual-report-2015-2016/ [cyrchwyd 01/11/16].

20. Roedd 7,781 digwyddiad o hunan-niwed gan garcharorion benywaidd yn y flwyddyn i fis Mawrth 2016, ar gyfradd o 2,034 digwyddiad o hunan-niwed fesul 1,000 carcharor, o'i gymharu â 328 digwyddiad fesul 1,000 carcharor gwrywaidd. Gweler NOMS (Gorffennaf 2016) *Bwletin Ystadegau Diogelwch yn y Ddalfa, Marwolaethau yn nalfa'r carchar i fis Gorffennaf 2016, Ymosodiadau a Hunan-niwed i fis Mawrth 2016*, ar gael ar: https://www.gov.uk/government/collections/safety-in-custody-statistics [cyrchwyd 01/11/16].

21. Arolygiaeth Carchardai EM ar gyfer yr Alban (Chwefror 2016), *Adroddiad ar arolwg Carchar EM Open Estate*, paragraff 4.13, ar gael ar https://www.prisonsinspectoratescotland.gov.uk/publications/report-hmp-open-estate-22-29-february-2016 [cyrchwyd 22/11/16].

Cyd-destun gwleidyddol, datblygiadau deddfwriaethol a pholisi

Fe arweiniodd etholiad cyffredinol y DU ar 7 Mai 2015 at lywodraeth y Ceidwadwyr yn dychwelyd i bŵer. Yn yr Alban, fe enillodd Plaid Genedlaethol yr Alban 50 sedd newydd yn senedd San Steffan, gan ennill pob etholaeth heblaw am dair.

Ar Agoriad Swyddogol y Senedd ar 27 Mai, fe gyhoeddodd Ei Mawrhydi'r Frenhines ei chynigion deddfwriaethol ar gyfer y llywodraeth, a oedd yn cynnwys cynlluniau i ddatganoli pwerau ar faterion eang i'r Alban a Gogledd Iwerddon, ac aildrafod perthynas y wlad gyda'r Undeb Ewropeaidd.

Hefyd, fe gyhoeddodd y Frenhines gynlluniau i gyflwyno cynigion am 'Fil Hawliau Prydeinig' ac i 'wella'r gyfraith ar blismona a chyfiawnder troseddol'.[22] Fe adroddwyd yn ddiweddarach y byddai'r Bil Hawliau yn cymryd y llwybr carlam i mewn i gyfraith erbyn haf 2016, gydag ymgynghoriadau'n dechrau yn hydref 2015, ond hyd yma does dim cynigion na dogfennau ymgynghori wedi cael eu cyhoeddi.

Roedd y flwyddyn yn nodedig am nifer yr adolygiadau a oedd ar y gweill neu a ddaeth i ben a oedd yn archwilio agweddau o bolisi neu ymarfer cadw, gyda phob un ohonynt yn arwain at argymhellion am welliant.

Roedd hyn yn arbennig o amlwg mewn perthynas â'r mater o golli rhyddid mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Ym mis Rhagfyr 2015, fe gyhoeddodd llywodraeth yr Alban adolygiad o Ddeddfwriaeth Oedolion gydag Anallluogrwydd a cholli rhyddid, yn dilyn ymlaen o adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn yr Alban o fis Hydref 2014.[23]

Fe gyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith (Cymru a Lloegr) ei adolygiad ei hun o'r gyfraith ar allu meddyliol a cholli rhyddid ym mis Gorffennaf 2015. Roedd hyn yn ymateb i'r feirniadaeth eang o'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) am fod yn rhy gymhleth a biwrocrataidd, yn ogystal ag achos y Goruchaf Lys 2014 *P v. Cheshire West a Chyngor Caer* a oedd yn ei wneud yn ofynnol bod nifer mwy o bobl yn cael eu trin o dan system y DoLS nag yn flaenorol.

Ym mis Tachwedd 2015, fe gyhoeddodd Gweinidog Iechyd Gogledd Iwerddon Simon Hamilton newidiadau arwyddocaol i strwythur a llywodraethu gwasanaethau iechyd yng Ngogledd Iwerddon, mewn ymateb i adolygiad o'r gwasanaeth iechyd a gynhaliwyd gan Syr Liam Donaldson ac a gyhoeddwyd yn gynharach eleni. Ym mis Ionawr 2016, fe sefydlwyd panel o arbenigwyr i 'arwain y drafodaeth ar gyfluniad optimaidd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon'.[24]

Carreg filltir arwyddocaol ar gyfer polisi yn ymwneud â chadw mewnfudwyr oedd y cyhoeddiad ym mis Ionawr 2016 o adolygiad annibynnol i mewn i les mewn mannau cadw mewnfudwyr o bobl agored i niwed, a gomisiynwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dan arweiniad Stephen Shaw, cyn Ombwdsmon y Carchardai a Phrawf.[25] Fe edrychodd yr adolygiad

22. https://www.gov.uk/government/speeches/queens-speech-2015 [cyrchwyd 01/11/16].
23. http://www.gov.scot/Publications/2015/12/8931 [cyrchwyd 01/11/16].
24. https://www.health-ni.gov.uk/news/hamilton-appoints-expert-panel-lead-debate-delivering-world-class-health-and-social-care [cyrchwyd 01/11/16].
25. https://www.gov.uk/government/publications/review-into-the-welfare-in-detention-of-vulnerable-persons [cyrchwyd 1/11/16].

hwn ar bolisïau a gweithdrefnau'r Swyddfa Gartref a allai gael effaith ar les mewnfudwyr yn y ddalfa. Ymysg ei amryw argymhellion, fe argymhellodd Stephen Shaw y dylid ymestyn y dybiaeth yn erbyn cadw i ddioddefwyr trais neu drais yn seiliedig ar ryw, y sawl gyda diagnosis o anhwylder straen ôl-drawmatig, pobl trawsrywiol a'r sawl gydag anawsterau dysgu. Fe alwodd am waharddiad cyfan gwbl ar gadw menywod beichiog. Fe argymhellodd hefyd welliannau yn narpariaeth gofal iechyd ac iechyd meddwl ym mannau cadw mewnfudwyr ac i'r prosesau o gynnal adolygiadau cadw. Fe alwodd Stephen Shaw hefyd am gau neu newid defnydd The Cedars, uned cyn ymadael ar gyfer teuluoedd ar y sail ei fod yn 'gamgyfeirio o arian cyhoeddus y gellid ei defnyddio'n well at ddibenion eraill.'

Hefyd ym mis Ionawr 2016, fe gyhoeddwyd adroddiad arolwg annibynnol ar y diwylliant ac arferion cyffredinol yng Nghanolfan Cadw Mewnfudwyr Yarl's Wood, ac effaith y rhain ar les a llesiant y sawl a oedd yn cael eu cadw yno. Fe gomisiynwyd yr adroddiad hwn gan Serco, sy'n rhedeg Yarl's Wood, wedi i gyfres o honiadau a phryderon ddod i'r amlwg, gan gynnwys yn adroddiadau aelodau'r NPM.[26] Fe ddarganfuodd yr adroddiad bod dim diwylliant endemig o gamdriniaeth yn Yarl's Wood, ond fe nododd gyfres o bryderon difrifol yn ymwneud â threfniadau staffio, gan gynnwys capasiti, hyfforddiant a'r gyfran o swyddogion benywaidd. Fe noddodd hefyd bryderon gyda'r awyrgylch corfforol, argaeledd gweithgareddau ystyrlon, gwendidau yn yr amddiffyn a pholisïau anghyson ac arferion heb eu datblygu'n ddigonol mewn perthynas â chodi pryderon a chwythu'r chwiban, a oedd yn ategu canfyddiadau aelodau'r NPM y flwyddyn flaenorol.

Daeth cynigion arwyddocaol i ddiwygio carchardai yng Nghymru a Lloegr i'r amlwg yn ystod y flwyddyn. Yn fuan ar ôl cychwyn yn y swydd, fe gyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ar y pryd, Michael Gove, adolygiadau o ddarpariaeth addysg mewn carchardai,[27] eithafiaeth Islamaidd mewn carchardai, prawf a chyfiawnder ieuenctid.[28] Fe benododd bobl i arwain ar yr adolygiadau hyn ym mis Medi 2015.

Fe gyhoeddwyd adroddiad dros dro yr adolygiad o'r system cyfiawnder ieuenctid ym mis Chwefror 2016. Roedd hwn yn galw am 'newid sylfaenol i'r system prawf ieuenctid cyfredol'.[29] I wneud hyn, roedd yr adroddiad yn argymell bod gwneuthurwyr polisi'n ail-feddwl carchardai ieuenctid fel 'ysgolion diogel', gyda rhagor o ymreolaeth a hyblygrwydd i benaethiaid gomisiynu gwasanaethau. Roedd yr adolygiad hefyd yn galw am ragor o ddatganoli o gyfrifoldeb a chyflwyno cyfiawnder ieuectid i ardaloedd lleol.

Yn dilyn cyfnod o ymgynghori, ym mis Mehefin 2015, fe gyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder yn yr Alban ddatblygiad carchar newydd i fenywod gyda lle i 80 ar safle cyfredol Carchai EM Cornton Vale, ochr yn ochr â phum uned warchodol yn seiliedig yn y gymuned, gyda lle i 20 menyw ym mhob un.

26. http://www.verita.net/case-study/independent-investigation-concerns-yarls-wood-immigration-removal-centre/ [cyrchwyd 01/11/16].
27. https://www.gov.uk/government/speeches/education-in-prison [cyrchwyd 01/11/16].
28. Fe gyhoeddwyd crynodeb o adroddiad terfynol yr adroddiad hwn ym mis Awst 2016, ar gael ar: https://www.gov.uk/government/publications/islamist-extremism-in-prisons-probation-and-youth-justice [cyrchwyd 01/11/16].
29. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (9 Chwefror 2016) *Adolygiad o'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid: Adroddiad dros dro o'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg*, ar gael ar: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/498736/youth-justice-review.pdf [cyrchwyd 01/11/16].

Fe gyflwynwyd Bil Plismona a Throsedd i'r Senedd ym mis Chwefror 2016, ac roedd hwn yn cynnwys darpariaethau a fydd yn eithrio gorsafoedd heddlu rhag cael eu defnyddio fel man o ddiogelwch ar gyfer plant trwy ymarfer pwerau o dan adran 136 Deddf Iechyd Meddwl 1983.[30] Yn Lloegr, nod y Concordat Gofal Iechyd Meddwl mewn Argyfwng (2014)[31] ac yng Nghymru, y Concordat Gofal Iechyd Meddwl mewn Argyfwng (2015),[32] oedd mynd i'r afael â phroblemau pobl fregus, megis plant a phobl gyda phroblemau iechyd meddwl, sy'n cael eu cadw yn y ddalfa.

Fe wnaethpwyd argymhellion penodol i newid y trefniadau arolygu a monitro ar gyfer addysg mewn carchardai a'r ddalfa ieuenctid yn yr adolygiadau hynny, a oedd yn cael eu hystyried gan aelodau'r NPM ar ddiwedd y flwyddyn adrodd.

Ym mis Chwefror 2014, fe gyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cyfiawnder ar y pryd, adolygiad annibynnol o farwolaethau hunanachosedig yn y ddalfa gan oedolion ifanc i gael ei gadeirio gan yr Arglwydd Harris. Fe adroddwyd ar yr adolygiad ym mis Gorffennaf 2015 a daeth i'r casgliad bod 'yr un problemau'n cael eu nodi gan gymaint o wahanol ffynonellau a dros gyn hired o amser [...] bod hi'n amlwg bod y gwersi ddim yn cael eu dysgu, a bod dim digon wedi cael ei wneud i gyflwyno newid sylweddol' ac roedd nifer fawr o argymhellion ar sut i fynd i'r afael â hyn. Mater penodol o bwysig oedd y ddadl y dylid ystyried pob oedolyn ifanc yn y ddalfa fel rhai agored i niwed ac argymhelliad yr adolygiad y dylid lletya pob oedolyn ifanc 18-24 mlwydd oed mewn unedau bach gyda staff arbenigol. Dylai bod rhaid i dimau troseddau ieuenctid gynnal cyswllt gyda phlant a drosglwyddwyd o'r system o dan 18 am isafswm o chwe mis - yn hirach os ydynt yn fregus (hyd at 21 neu 24 mlwydd oed).[33] Dylid gwneud trefniadau i oedolion ifanc sy'n arbennig o fregus i aros yn y system blant os ydyw yn eu diddordebau gorau. Fe ddynododd y llywodraeth y byddai'r cynigion hyn yn cael eu hystyried yng nghyd-destun yr adolygiad cyfiawnder ieuenctid ac ystyriaeth o adolygiadau ehangach o'r system carchardai.[34]

Yn dilyn hynny, ym mis Chwefror 2016, fe gyhoeddwyd 'adolygiad cynhwysfawr' o bolisi carchardai yng Nghymru a Lloegr gan y Prif Weinidog.[35] Yn ganolog i'r adolygiad hwn oedd y cynllun i roi mwy o ymreolaeth weithredol i lywodraethwyr a 'chael gwared ar y micro-reoli biwrocrataidd sy'n tynnu'r pŵer oddi wrthynt'. Bydd chwech 'adolygiad o garchardai' yn cael eu creu i symud ymlaen gyda'r ymagwedd hon a bydd 'cynghreiriau carchardai' yn cael eu cyflwyno i annog cymhariaeth rhwng gwahanol sefydliadau. Yn arwyddocaol, fe gyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai Bil y Carchardai yn cael ei gyflwyno yn sesiwn nesaf y Senedd. Mae'r Ddeddf Carchardai ddiwethaf yng Nghymru a Lloegr yn dyddio yn ôl i 1952, gan wneud hwn yn gyfle pwysig i ddiweddaru'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n llywodraethu carchardai.

Roedd adolygiadau pellach ar y gweill ar ddiwedd y flwyddyn adrodd. Ym mis Gorffennaf 2015, fe gyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref y byddai adolygiad annibynnol ar farwolaethau a digwyddiadau difrifol yn nalfa'r heddlu yn cael ei arwain gan y Farwnes Elish Angiolini.[36] Ym mis

30. http://www.publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/2015-2016/0134/cbill_2015-20160134_en_1.htm [cyrchwyd 01/11/16].
31. http://www.crisiscareconcordat.org.uk/ [cyrchwyd 22/11/16].
32. http://gov.wales/docs/dhss/publications/151210reporten.pdf [cyrchwyd 22/11/16].
33. http://iapdeathsincustody.independent.gov.uk/wp-content/uploads/2015/07/Harris-Review-Report2.pdf [cyrchwyd 01/11/16].
34. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/486564/gov-response-harris-review.pdf [cyrchwyd 01/11/16].
35. https://www.gov.uk/government/speeches/prison-reform-prime-ministers-speech [cyrchwyd 01/11/16].
36. https://www.gov.uk/government/news/home-secretary-announces-chair-for-deaths-in-custody-review [cyrchwyd 01/11/16].

Ionawr 2016, fe gyhoeddodd y Prif Weinidog adolygiad o'r bias hiliol a chynrychiolaeth grwpiau duon a lleiafrifol ethnig yn y system cyfiawnder troseddol.[37] Fe ddrafftiwyd concordat ar blant yn y ddalfa yn ystod y flwyddyn, gyda'r nod o leihau nifer y plant a gedwir dros nos yn y ddalfa a sicrhau bod heddluoedd yn bodloni eu dyletswyddau mewn perthynas â phlant yn y ddalfa.

Roedd craffu gyda ffocws penodol ar bobl fregus yn y ddalfa yn ystod y flwyddyn. Fe gyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ei *adroddiad ar Atal Marwolaethau Oedolion gyda Chyflyrau Iechyd Meddwl yn y Ddalfa,* gan alw am sefydlu ymagweddau strwythuredig at ddysgu gwersi o farwolaethau mewn carchardai, yn y ddalfa ac mewn dalfeydd iechyd er mwyn cyflwyno gwelliannau ar gyfer marwolaethau blaenorol a digwyddiadau agos.[38]

Ym mis Mawrth 2016, bu'r Llys Apêl wrthdroi penderfyniad y dylid cyflwyno gwaharddiad gorfodol, ar unwaith ar ysmygu mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr ar y sail nad oedd y gwaharddiad ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus yn berthnasol i garchardai'r wladwriaeth ac adeiladau eraill y goron. Fe gyflwynwyd gwaharddiadau eisoes yng ngharchardai Cymru ym mis Ionawr 2016. Mewn ymateb i hyn, fe ddywedodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ei bod yn dal yn bwriadu cyflwyno rheoliadau gwirfoddol ar ysmygu mewn carchardai fel mater o bolisi.

Ym mis Gorffennaf 2015, fe gyhoeddodd Y Swyddfa Dramor a Chymanwlad (FCO) ei chynlluniau i ganolbwyntio ei gwaith hawliau dynol rhyngwladol yn y dyfodol ar dair thema newydd: gwerthoedd democrataidd a rheol y gyfraith; cryfhau'r system rhyngwladol yn seiliedig ar reolau; a hawliau dynol ar gyfer byd sefydlog.[39] Fe godwyd pryderon mewn rhai mannau y gallai'r tair thema hyn danseilio'r ffocws a nodwyd yn flaenorol gan yr FCO sef hyrwyddo atal artaith, ond fe gadarnhaodd yr FCO ei hymrwymiad barhaus at y gwaith hwn o fewn y themâu newydd.

Fe gyhoeddwyd ym mis Medi 2015 y byddai cangen fasnachol o'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, Just Solutions international (JSi), a oedd yn gwerthu arbenigedd mewn carchardai a phrawf ledled y byd, yn cau. Crëwyd yn 2012, nod JSi oedd gwneud elw masnachol ar waith ar gytundeb o lywodraethau tramor. Roedd sylw sylweddol wedi bod yn cyfryngau ac adolygiad cyfreithiol o waith arfaethedig JSi yn hyfforddi swyddogion carchar yn Sawdi Arabia. Er gwaethaf dynodiadau cychwynnol y byddai'r gwaith hwn yn parhau pe byddai'r cais amdano yn cael ei ddyfarnu, ar y sail y byddai'n niweidiol i fuddion y DU os na fyddai'n digwydd, fe dynnwyd y cais yn ei ôl ym mis Hydref 2015. Fe dynnodd yr achos sylw sylweddol at rôl llywodraeth y DU yn gweithio gyda llywodraethau gwledydd ble mae'n hysbys bod artaith yn digwydd. Fe gynhaliodd y Swyddfa Archwilio Cenedlaethol ymchwiliad i mewn i gau'r JSi a darganfuwyd ei bod wedi gwneud gwir golled o £1.1 miliwn dros ei fodolaeth.[40]

37. https://www.gov.uk/government/news/review-of-racial-bias-and-bame-representation-in-criminal-justice-system-announced [cyrchwyd 01/11/16].
38. https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/preventing-deaths-detention-adults-mental-health-conditions-report [cyrchwyd 01/11/16].
39. https://www.gov.uk/government/publications/human-rights-and-democracy-report-2015/human-rights-and-democracy-report-2015 [cyrchwyd 01/11/16].
40. https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2016/01/Investigation-into-Just-Solutions.pdf [cyrchwyd 01/11/16].

Deddfwriaeth newydd

Mae deddfwriaeth newydd a fabwysiadwyd ac a ddeddfwyd yn ystod y flwyddyn wedi arwain at newidiadau i nifer o agweddau cadw.

- Fe basiodd Bil Galluedd Meddyliol **Gogledd Iwerddon** trwy Gynulliad Gogledd Iwerddon yn ystod y flwyddyn, ac fe'i gymeradwywyd yn swyddogol ar 15 Mawrth 2016.[41] Mae'r gyfraith arloesol hon yn cyflwyno fframwaith gyfreithiol i Ogledd Iwerddon am y tro cyntaf sy'n llywodraethu galluedd ac analluedd, sy'n seiliedig ar dybiaeth o alluedd ac mae'n gofyn bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn seiliedig ar fuddiannau gorau person. Dyma'r gyfraith gyntaf unrhyw le yn y byd sy'n cyfuno iechyd meddwl a chyfraith galluedd meddyliol. Bydd angen mwy o waith i ddatblygu cod ymarfer yn canolbwyntio ar y gofynion a nodwyd yn y ddeddfwriaeth.
- Fe dderbyniodd **Deddf Iechyd Meddwl (Yr Alban) 2015** gydsyniad brenhinol ar 4 Awst 2015. Mae'n cyflwyno hawl newydd i gleifion mewn ysbytai diogelwch canolig i apelio yn erbyn cael eu cadw mewn amodau o ddiogelwch gormodol.
- Fe dderbyniodd **Deddf Cyfiawnder Troseddol (Yr Alban) 2016** gydsyniad brenhinol ym mis Ionawr 2016 ac mae'n gwneud newidiadau i weithdrefnau arestio a chadw pobl a ddrwgdybir o gyflawni trosedd. Mae'n gwneud darpariaethau yn ymwneud ag arestio, hyd yr amser yn y ddalfa, rhyddhad ymchwiliadau, cyngor cyfreithiol, cwestiynu a hawliau'r sawl a ddrwgdybir. Nid yw'r ddeddfwriaeth eto mewn grym.
- Fe dderbyniodd **Deddf Sylweddau Seicoweithredol 2015** gydsyniad brenhinol ar 28 Ionawr 2016 ac fe gyflwynodd troseddau newydd ar gynhyrchu a chyflenwi sylweddau seicoweithredol, a throsedd benodol o feddiant mewn lleoliadau gwarchodol. Roedd y ddeddfwriaeth ddrafft wedi cael ei feirniadu gan Gyngor Cynghori'r Llywodraeth ar Gamddefnyddio Cyffuriau oherwydd, ymhlith rhesymau eraill, ei diffiniad o sylwedd seicoweithredol, a oedd yn methu â gwahaniaethu rhwng sylweddau a allai fod yn niweidiol a rhai diniwed.[42]
- Fe ddaeth **Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** i rym ym mis Ebrill 2016 a'r bwriad yw trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n darparu fframwaith cyfreithiol i wella llesiant pobl sydd angen gofal a chefnogaeth a gofalwyr sydd angen cefnogaeth.
- Fe ddaeth **Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016** yn gyfraith ym mis Ionawr 2016. Bydd gan y ddeddf hon oblygiadau sylweddol i aelodau'r NPM yng Nghymru a bydd yn dechrau cael ei weithredu ym mis Ebrill 2017. Mae aelodau'r NPM yn gweithio'n agos i helpu llunio'r cod ymarfer a fydd yn cael ei ddrafftio i roi'r ddeddf ar waith er mwyn iddi gefnogi eu nodau ac amcanion a sicrhau bod cyfrifoldebau'r NPM yn cael eu hadnabod.
- Fe ddaeth **Gorchymyn Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus (Arolygu a Monitro Carchardai) (Yr Alban) 2015** i rym ar 31 Awst 2015. O dan y ddeddfwriaeth hon, mae cyfrifoldeb dros fonitro carchardai wedi pasio i Brif Arolygydd Carchardai EM ar gyfer yr Alban ac mae cyfrifoldeb dros fonitro celloedd cyfreithiol yr heddlu wedi symud i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn yr Alban.

41. Fe dderbyniodd Deddf Galluedd Meddyliol (Gogledd Iwerddon) 2016 Gydsyniad Brenhinol ar 9 Mai 2016.
42. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/441400/2-7-15-ACMD_advice_on_PS_Bill.pdf [cyrchwyd 01/11/16].

Datblygiadau rhyngwladol

Ar ôl sawl blwyddyn o ddiwygiadau a thrafodaethau, fe fabwysiadodd Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig fersiwn ddiwygiedig o'r Rheolau Isafswm Safonol ar Driniaeth Carcharorion ar 17 Rhagfyr 2015, ac fe gytunwyd eu galw'n 'Rheolau Nelson Mandela'. Mae'r datblygiad arwyddocaol hwn yn ddiweddaru'r ddogfen wreiddiol a fabwysiadwyd gan Gyngor Economaidd a Chymdeithasol y Cenhedloedd Unedig yn 1957, ac yn adlewyrchu nifer o'r datblygiadau ym maes safonau hawliau dynol mewn carchardai ers hynny.

Ym mis Awst 2015, fe gyhoeddodd Pwyllgor Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig ei Arsylwadau Casgliadol o'i adolygiad o gynnydd y DU yn rhoi'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol ar waith. Yn ei gasgliadau eang, fe alwodd y Pwyllgor ar y llywodraeth i sicrhau bod gan unrhyw ddeddfwriaeth sy'n cael ei basio yn lle Deddf Hawliau Dynol 1998 y nod o gryfhau statws a diogeliadau hawliau dynol rhyngwladol yn y drefn cyfreithiol domestig. Yn ymwneud yn benodol â chadw, fe alwodd y Pwyllgor am fesurau i atal marwolaethau hunanachosedig a hunan-niwed yn y ddalfa a bod terfyn amser statudol yn cael ei sefydlu ar hyd cadw mewnfudwyr. Mewn perthynas â chyfiawnder ieuenctid, fe ailadroddodd y Pwyllgor ei argymhelliad bod y DU yn codi'r oedran isafswm o gyfrifoldeb troseddol yn unol â safonau rhyngwladol, ac fe argymhellodd hefyd bod ymdrechion yn cael eu gwneud i leihau nifer y plant yn y system cyfiawnder ifanc. Yn olaf, fe ailadroddodd y Pwyllgor ei argymhelliad blaenorol bod deddfwriaeth sy'n gwadu carcharor euog yr hawl i bleidleisio yn cael ei addasu.

Fe gyhoeddodd Cofnodwr Arbennig y Cenhedloedd Arbennig ar Artaith adroddiad yn archwilio profiadau unigryw menywod, merched a phobl LGBTI (lesbiad, hoyw, deurywiol, trawsrywiol a rhyngrywiol) yn y ddalfa a sut mae gwahardd artaith a thriniaeth neu gosb creulon, annynol neu ddiraddiol arall mewn cyfraith ryngwladol yn berthnasol iddynt. Mae'r adroddiad pwysig hwn yn adlewyrchu'r ffaith bod y fframwaith rhyngwladol yn ymwneud ag artaith a thriniaeth wael wedi esblygu gan fwyaf mewn ymateb i ymarferion a sefyllfaoedd a oedd yn cael effaith andwyol ar ddynion, ac felly ddim yn ystyried rhyw neu wahanol groestoriadau.[43]

43. Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig (5 Ionawr 2016) *Adroddiad y Cofnodwr Arbennig ar artaith a thriniaeth neu gosb creulon, annynol a diraddiol arall*, A/HRC/31/57, ar gael ar: http://ap.ohchr.org/documents/dpage_e.aspx?si=A/HRC/31/57 [cyrchwyd 01/11/16].

Adran dau

Canolbwyntio ar faterion cadw



Arwahaniad - cyfarwyddyd i gyrff monitro'r NPM

Dechreuodd yr NPM ddatblygu cyfarwyddyd cynhwysfawr i gryfhau ei fonitro o arwahaniad yn y ddalfa. Datblygwyd y cyfarwyddyd hwn ar sail canfyddiadau'r arolwg o arwahaniad a chaethiwed unigol ar draws lleoliadau cadw a gynhaliwyd gan aelodau'r NPM yn 2014-15, ac mae'n tynnu ar arferion gorau ac arferion rhyngwladol. Bydd yn cael ei gyhoeddi yn 2016-17.

Bydd y cyfarwyddyd yn darparu fframwaith cynhwysfawr y dylai aelodau'r NPM ei dilyn wrth archwilio arwahaniad yn y ddalfa, sydd â'r potensial i arwain at driniaeth wael. Y nod yw gwella cysondeb gyda pha aelodau o'r NPM sy'n monitro'r materion. Ar yr un pryd, bydd y cyfarwyddyd yn caniatáu i aelodau'r NPM adnabod a hyrwyddo arferion da a gwell, a bydd hefyd yn darparu'r sail i ail-lunio argymhellion i gryfhau polisi.

Carcharu mewnfudwyr

Ym mis Tachwedd 2015, fe drafododd aelodau'r NPM sefyllfa unigryw'r DU o beidio â chael terfyn amser statudol ar gadw mewnfudwyr. Mae'r DU wedi optio allan o Gyfarwyddeb Dychweliadau'r Undeb Ewropeaidd, sy'n gosod terfyn amser uchafswm o chwe mis (a 18 mis mewn amgylchiadau eithriadol). Mae'r sefyllfa hon wedi cael ei beirniadu gan nifer o gyrff hawliau dynol rhyngwladol, gan gynnwys, fwyaf diweddar, Pwyllgor Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig, a alwodd ar y DU i 'sefydlu terfyn amser statudol ar hyd cadw mewnfudwyr a sicrhau mai cadw yw'r dewis olaf a bod modd cyfiawnhau hyn fel dewis rhesymol, angenrheidiol a chymesur, gan ystyried yr amgylchiadau perthnasol'.

Fe gynigodd Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban, wrth ystyried y niwed sylweddol a achosir trwy fod yn y ddalfa am gyfnod amhenodol, ac o ystyried cyfrifoldeb yr NPM o dan OPCAT i wneud argymhellion sy'n ystyried safonau perthnasol y Cenhedloedd Unedig, y dylai'r NPM weithredu ar y mater. Mae rhai aelodau unigol o'r NPM eisoes wedi galw am derfyn amser. O ganlyniad, fe gytunodd aelodau'r NPM y dylai'r NPM alw am derfyn amser ar gadw mewnfudwyr.

Adran tri

Yr NPM yn 2015–16



Cryfhau'r NPM

Fe ddechreuodd y broses o benodi cadeirydd yr NPM yn 2014, pan benderfynodd aelodau'r NPM i gryfhau llywodraethiant yr NPM trwy benodi cadeirydd o du allan i aelodaeth yr NPM. Fe nododd adroddiad blynyddol y llynedd ein siom bod y broses o recriwtio cadeirydd wedi cael ei oedi oherwydd pryderon gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Yn ystod y flwyddyn hon, cafwyd rhagor o rwystredigaethau yn deillio o ymgais yr NPM i gyrraedd cytundeb gyda'r llywodraeth ar broses a oedd yn dderbyniol i bawb er mwyn penodi cadeirydd ac yn sgil hyn, ym mis Hydref 2015, fe hysbysodd grŵp llywio'r NPM y llywodraeth y byddai'n cario ymlaen gyda'r broses o recriwtio cadeirydd trwy benodiad anweithredol. Roedd oedi pellach i'r penodiad oherwydd cais y llywodraeth i ohirio'r broses nes i'r Prif Arolygydd Carchardai gychwyn yn y swydd ym mis Chwefror 2016, a chwestiynau hwyr am yr achos dros gael cadeirydd i'r NPM a oedd yn rhaid eu datrys.

Roedd aelodau'r NPM yn falch o gadarnhau'r ymgeisydd a argymhellir gan y panel recriwtio, John Wadham, yng nghyfarfod busnes Ebrill 2016 ac wedi i'r cynlluniau ymsefydlu cael eu trefnu.

Roedd cydlyniad yr NPM yn parhau i dynnu sylw at y mater bod angen i'r NPM gael sail ddeddfwriaethol trwy gyfarfodydd rheolaidd gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ledled y flwyddyn. Gan ystyried penodiad y cadeirydd newydd, fe ohiriwyd y cynlluniau am ymdrechion pellach i gryfhau'r NPM.

Roedd hefyd yn siomedig bod y broses i ddynodi Adolygwr Terfysgaeth Annibynnol i'r NPM heb ddod i gasgliad yn ystod y flwyddyn, er gwaethaf ymgais gyson i helpu symud y broses ymlaen. Gan gydnabod yr oedi, fe gytunodd aelodau'r NPM ym mis Tachwedd 2015, y dylid gwahodd yr Adolygwr Terfysgaeth Annibynnol i gyfarfodydd busnes y dyfodol fel arsyllwr.

O ganlyniad i'r cysylltiadau cryfach a luniwyd gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, ac mewn ymateb i'w cais i arsylwi cyfarfodydd busnes, ym mis Tachwedd 2015, fe fynychodd Lorna MacGregor, Comisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, gyfarfodydd busnes yr NPM.

Datblygiadau aelodau penodol

Yn ychwanegol at arolygiadau a oedd yn parhau, o fis Hydref 2015, mae'r **Arolygiaeth Gofal (CI)** wedi bod yn arwain yr adolygiad o Safonau Gofal Cenedlaethol yr Alban ar y cyd â Healthcare Improvement Scotland, yn cynnwys amrywiaeth eang o leoliadau gan gynnwys yr holl wasanaethau gofal a reoleiddir gan yr Arolygiaeth Gofal a Healthcare Improvement Scotland. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau gofal diogel i blant, cartrefi gofal i blant ac oedolion, ac ysbytai seiciatrig annibynnol. Bydd y safonau hefyd yn berthnasol i waith craffu ehangach ar draws lleoliadau iechyd a gofal iechyd a byddant yn berthnasol ar gyfer darpariaeth heb ei gofrestru. Bydd y safonau hyn yn arwain datblygiad gofal yn canolbwyntio ar ganlyniadau yn seiliedig ar hawliau dynol a llesiant unigol a bydd yn cychwyn cael ei roi ar waith ym mis Ebrill 2017. Mae'r Arolygiaeth Gofal hefyd yn adolygu ei fethodoleg arolygu ei hun i adlewyrchu'r safonau newydd hyn.

Fe gynhaliodd **Comisiynydd Plant Lloegr (CCE)** ymchwiliad ar arwahaniad o fewn system warchodol plant yn Lloegr, gan arwain at gyhoeddi adroddiad ymchwil a chrynodeb polisi ym mis Medi 2015. Yn dilyn adroddiad y BBC ar Ganolfan Hyfforddiant Diogel Medway (STC), fe ymwelodd y CCE â phob un o'r tair canolfan hyfforddiant diogel yn Lloegr, ar gais y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Ym mis Ebrill 2015, fe secondiwyd arbenigwr cyfiawnder ieuenctid i'r CCE, gan alluogi iddynt ymgymryd ag ymweliadau mewn modd mwy strategol a gyda gwell methodoleg. Roedd y CCE yn rhan o weithgor y Swyddfa Gartref a gafodd ei ymgynnull i wella cydymffurfiad, gan yr heddlu ac awdurdodau lleol, gyda'r gofyniad statudol i drosglwyddo plant a oedd wedi cael gwrthod mechnïaeth ar ôl cyhuddiad i lety awdurdod lleol. Fe arweiniodd hyn at ddatblygu concordat drafft. Mae hefyd yn parhau i fonitro caethiwed de facto plant mewn lleoliadau mewnfudo.

Fe gyhoeddodd Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon (CJINI) nifer o adroddiadau, gan gynnwys adroddiad ar arolwg dirybudd beirniadol iawn yng Ngharchar Maghaberry ym mis Mai 2015. Oherwydd ei bryderon, fe gymerodd y camau digynsail o ddychwelyd i'r carchar ym mis Ionawr 2016 a chyhoeddi adroddiad dilynol. Tra bod y sefyllfa yn y carchar wedi sefydlogi erbyn hynny, mae'r CJINI yn dal i bryderu ac yn parhau i fonitro'r sefyllfa. Mae hefyd wedi rhoi tystiolaeth gerbron Pwyllgor Cyfiawnder Cynulliad Gogledd Iwerddon ar Maghaberry, yn ogystal ar ei adroddiad terfynol o'r cynnydd ar weithredu argymhellion yr Adolygiad Cyfiawnder Ieuenctid, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015.

Mae'r **Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC)** wedi dechrau nifer o brosiectau gyda'r nod o integreiddio ac alinio monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn well gyda'i gweithgaredd rheoleiddiol. Mae hyn yn cynnwys diweddaru ei ymagwedd at ymweliadau i adlewyrchu newidiadau i God Ymarfer y DdIM; rhoi methodoleg diwygiedig ar waith ar gyfer ymweliadau gyda ffocws penodol er mwyn sicrhau hyblygrwydd wrth ymateb i faterion sy'n deillio o'r DdIM; a chreu taflenni ffeithiau ar y GIG a darparwyr gofal iechyd annibynnol i fynd i'r afael â'r diffyg o ddefnyddio dadansoddiad rheolaidd i hysbysu ymweliadau adolygwyr yr DdIM. Mae'r CQC wedi cynnal cannoedd o ymweliadau monitro'r DdIM ac wedi dwyn y cylch cyntaf o ymweliadau rheoliadol o dan y fethodoleg ddiwygiedig i ben. Eleni, cynyddodd gydymffurfiad OPCAT pan oedd Adran 90 o'r Ddeddf Gofal 2014 wedi addasu Adran 48 Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, gan gael gwared â'r gofyniad i gael cymeradwyaeth Ysgrifennydd Gwladol am adolygiadau arbennig, sydd felly'n cryfhau annibyniaeth.

Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CSSIW) yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i fonitro, arolygu a gwella gweithrediad y rheoliadau diogelu rhag colli rhyddid yng Nghymru. Fel aelod o'r Grŵp Arwain a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn sgil penderfyniad y Goruchaf Lys ar achos *P v Cheshire West a Chyngor Caer* yn 2014, mae CSSIW wedi gweithio i bwysleisio cyfrifoldebau'r NPM wrth i'r grwp ystyried y datganiad dros dro o Gomisiwn y Gyfraith ar Alluedd Meddyliol a Cholli Rhyddid. Mae CSSIW wedi parhau i roi'r fframweithiau newydd ar waith ar gyfer arolygiadau o wasanaethau cymdeithasol

awdurdodau lleol a gwasanaethau rheoledig, fframwaith sydd nawr yn amlwg yn cynnwys rhwymedigaethau'r Arolygiaeth o dan OPCAT i ystyried i ba raddau mae'r gofal a'r gefnogaeth a ddarperir yn helpu sicrhau hawliau i bobl.

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (HIW) yn parhau i arolygu a rheoleiddio ysbytai gyda chleifion dan orchymyn ac mae wedi ymgymryd â hyfforddiant hir dymor o staff yn ardaloedd allweddol iechyd meddwl a chadw. Mae'r hyfforddiant ychwanegol wedi canolbwyntio ar agweddau o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, gan gynnwys adran 136, ac amryw swyddogaethau gwasanaeth adolygu'r Ddeddf Iechyd Meddwl, gan gynnwys y Meddyg a Benodir am Ail Farn (SOAD). Mae hyfforddiant hefyd wedi cael ei darparu ar Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010. Yn ystod 2015-16 fe gychwynnodd HIW, am y tro cyntaf, raglen o fonitro gweithrediad Deddf Iechyd Meddwl 1983 ar gyfer Cleifion yn y Gymuned ar Orchmynion Triniaeth Gymunedol (CTO). Fe ymgymerodd HIW â 26 thri ymweliad â byrddau iechyd Cwm Taf, Caerdydd a'r Fro ac Aneurin Bevan ac maen nhw'n bwriadu parhau i ehangu'r gwaith hwn dros y cyfnod nesaf.

Fe barhaodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth ei Mawrhydi yn yr Alban (HMICS) i gyflwyno rhaglen dreigl o arolygiadau yn y ddalfa, a gwella'i annibyniaeth a chydymffurfiaeth OPCAT trwy sicrhau nad oedd swyddogion heddlu ar secondiad i weithio gyda HMICS yn llunio rhan o'r tîm arolygu yn y ddalfa. Ym mhob un o'i archwiliadau, roedd HMICS yn parhau i ystyried carchariad unigol, gan fynd i'r afael â materion sy'n lliniaru effeithiau negyddol carchariad yn ei adroddiadau. Yn hwyr yn 2015, fe gychwynnodd HMICS ar adolygiad o'i fframwaith arolygu'r ddalfa, gan sicrhau ei bod yn ystyried fframwaith hawliau dynol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar gyfer oedolion yn y ddalfa, a oedd yn dilyn yr ymchwiliad ar *Atal marwolaethau oedolion yn y ddalfa gyda chyflyrau iechyd* meddwl. Mae HMICS hefyd wedi cychwyn monitro Ymholiadau Damweiniau Marwol i mewn i farwolaethau yn nalfa'r heddlu er mwyn sicrhau bod unrhyw ddysgu yn cael ei adlewyrchu yn y fframwaith a'r methodoleg arolygu gyffredinol. Yn gynnar yn 2016, fe gynhaliodd HMICS adolygiad sylweddol o'r holl argymhellion mae wedi eu gwneud ers creu Heddlu'r Alban yn 2013, a arweiniodd at ollwng nifer o argymhellion a chamau gweithredu am welliant. Roedd yr adolygiad hwn yn nodi gwelliannau mewn rhai agweddau o gyflwyniad yn y ddalfa, er mae angen gwneud mwy.

Yn dilyn Gorchymyn Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus (Arolygu a Monitro Carchardai) (Yr Alban) 2015, fe gymerodd **Arolygiaeth Carchardai ei Mawrhydi ar gyfer yr Alban (HMIPS)** gyfrifoldeb dros fonitro carchardai'r Alban o ddydd i ddydd, sy'n cael ei wneud gan tua 150 Monitor Annibynnol Carchardai gwirfoddol trwy ymweliadau wythnosol. Mae Grŵp Cynghorol ar Fonitro Annibynnol Carchardai wedi cael ei sefydlu i oruchwylio a chefnogi effeithiolrwydd monitro carchardai, sy'n cael ei gadeirio gan aelod o Gomisiwn Hawliau Dynol yr Alban. Ym mis Mawrth 2015, fe adolygodd HMIPS ei safonau ar gyfer arolygu carchardai yn yr Alban, ac mae'r arolygwyr a'r monitoriaid yn defnyddio'r rhain wrth berfformio eu rolau unigol.

Mae adroddiadau o **Arolygiaeth Carchardai ei Mawrhydi (Carchardai EM)** dros y flwyddyn wedi dangos gostyngiad difrifol yn niogelwch a chanlyniadau gweithgareddau pwrpasol. Fe gyhoeddodd Carchardai EM 75 adroddiad arolygu, a oedd yn cynnwys adroddiad ar y cyfleusterau carchar a dalfeydd yr heddlu yr Ynynsoedd Caiman. Fe gyhoeddwyd adroddiadau thematig ar y patrymau newidiol o gamddefnydd sylweddau mewn carchardai i oedolion ac ar gyflwyniad cynnar y system newydd ar gyfer rheoli ymddygiad ac atal plant yn y ddalfa. [44] Fe gynhaliwyd yr arolwg system-gyfan cyntaf o Ganolfannau Goruchwyliaeth Agos (math o arwahaniad gweinyddol neu 'dalfa ddwfn'). Fe gytunodd Carchardai EM ar set newydd o Ddisgwyliadau (safonau arolygu) ar gyfer ei arolygiadau ar y cyd o ddalfa'r heddlu gyda HMIC. Ym mis Ionawr 2016, fe gododd Prif Arolygydd y Carchardai ar y pryd bryderon am y broses o osod rheoliadau gwario ar waith yr Arolygiaeth a'r goblygiadau o'r rheini ar ei hannibyniaeth.[45] Ym mis Chwefror 2016, fe ddaeth tymor Nick Hardwick fel Prif Arolygydd Carchardai EM i ben ac fe benodwyd Prif Arolygydd newydd, Peter Clarke, am gyfnod o dair blynedd[46]

Mae'r **Byrddau Monitro Annibynnol** wedi bod yn destun dau adolygiad o'u rôl a llywodraethiant dros y ddwy flynedd diwethaf. Eleni, fe gynhaliwyd adolygiad llawn o lywodraethiant gyda'r nod o ail-drefnu strwythur rheoli'r Byrddau Monitro Annibynnol er mwyn ei wneud yn debycach i Gorff Llywodraethol Anadrannol. Ym mis Ionawr 2016, fe gyhoeddodd yr IBMs Fframwaith Monitro Cenedlaethol newydd i osod safonau ar gyfer gweithgareddau monitro o fewn Byrddau a chynyddu cydymffurfiaeth gydag OPCAT, Rheolau Mandela a Rheolau Bangkok. Bydd y Fframwaith hwn yn sicrhau mwy o gysondeb monitro a mwy o groywder wrth adrodd ar driniaeth deg a dynol y sawl yn y ddalfa. Mae cyfarwyddyd pellach wedi cael ei gyhoeddi i alinio adroddiadau blynyddol Byrddau Rheoli gyda'r fframwaith hwn, gan ganolbwyntio ar y cwestiynau hyn: a yw carcharorion yn cael eu trin yn deg; a yw carcharorion yn cael eu trin yn ddynol; a yw carcharorion yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer eu rhyddhau. Mae'r Byrddau Monitro Annibynnol yn trafod gyda Charchardai EM a'r Ombwdsmon Carchardai a Phrawf o dan eu protocol ar y cyd ar ddialon. Mae nifer o ymchwiliadau wedi digwydd yn ystod y flwyddyn, gyda'r Byrddau Monitro Annibynnol yn darparu tystiolaeth ar yr achosion a adroddwyd o dan y protocol.

Eleni, fe gynhaliodd y **Sefydliad Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa (ICVA)** ailstrwythuro ac adolygiad o lywodraethiant, gyda'r nod o wella rhannu arfer da a dysgu ar y cyd yn y dyfodol. Mae wedi parhau i gefnogi Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd ac Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa (ICV), a gweithio ar gyfathrebu yn fewnol ac yn allanol, gan gynnwys adeiladu presenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol a threfnu Cynhadledd Flynyddol gyda channoedd o wirfoddolwyr yn mynychu. Mae hefyd wedi dechrau coladu data cenedlaethol ar nifer yr ymweliadau, themâu allweddol a'r materion a godwyd gan ymwelwyr â'r ddalfa er mwyn hysbysu prosiectau a rhanddeiliaid cenedlaethol. Fe aeth ymwelwyr â'r ddalfa ar dros 9,400 o ymweliadau â'r ddalfa ar draws Cymru a Lloegr yn 2015-16, gan gyfweld â dros 30,000 o bobl yn ddalfa a monitro a oedd eu hawliau yn cael eu caniatáu, eu hiechyd a lles yn cael eu diogelu a bod amodau a chyfleusterau'r ddalfa yn ddigonol.

44. https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/inspections/changing-patterns-of-substance-misuse-in-adult-prisons-and-service-responses/ [cyrchwyd 01/11/16] a https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/inspections/behaviour-management-and-restraint-of-children-in-custody/ [cyrchwyd 01/11/16].

45. http://www.parliament.uk/documents/commons-committees/Justice/Letter%20dated%201%20Dec%20Nick%20Hardwick%20to%20Richard%20Heaton.pdf [cyrchwyd 01/11/16].

46. Pwyllgor Cyfiawnder (Tachwedd 2015) *Penodi Prif Arolygwr Carchardai EM a Phrif Arolygwr Prawf EM*, ar gael ar: http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201516/cmselect/cmjust/624/62402.htm [cyrchwyd 01/11/16].

Fe barhaodd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yr Alban (ICVS) i ymweld â dalfeydd Heddlu'r Alban, gyda'r gwirfoddolwyr yn gwneud bron 1,500 o ymweliadau dirybudd yn ystod y cyfnod. Fe groesawodd ICVS gynnydd yn nifer y sawl yn y ddalfa yr oeddent yn gallu cynnig ymweliadau iddynt (i fyny 6.13%) a'r sawl yn y ddalfa a oedd yn derbyn ymweliadau (i fyny 1.09%) ar y flwyddyn flaenorol. Fe enillodd ICVS y cyfrifoldeb newydd o fonitro celloedd cyfreithlon yr heddlu (LCP) o fis Awst 2015. Celloedd yr heddlu yw LCP sydd wedi cael eu 'cyfreithloni' i gadw carcharorion sydd naill ai'n aros am dreial yn lleol, yn dychwelyd o'r carchar i gael eu dedfrydu, neu'n aros am drosglwyddiad i'r carchar yn dilyn collfarn. Maen nhw'n deillio o analluedd llysoedd yr Alban mewn rhanbarthau ac ynysoedd anghysbell. Mae'r Rheolwr Cenedlaethol a'r Cydlynwyr Rhanbarthol wedi datblygu hyfforddiant penodol ar gyfer paratoi i roi Deddf Cyfiawnder Troseddol (Yr Alban) 2016 ar waith. Bydd hwn yn cael ei gyflwyno i'r holl ymwelwyr gwirfoddol â'r ddalfa cyn i'r Ddeddf ddod i rym.

Fe barhaodd Byrddau Monitro Annibynnol Gogledd Iwerddon (IMBNI) i weithio fel arsyllwyr gwirfoddol annibynnol ar bob agwedd o system carchardai Gogledd Iwerddon.

Fe ymgymerodd Comisiwn Lles Meddwl yr Alban (MWCS) ag ymweliadau i'r holl unedau gofal seiciatrig dwys yn yr Alban, a'r holl unedau asesu cleifion anabledd dysgu, gan ganolbwyntio ar garchariad unigol ac arwahaniad. Fe arweiniodd hyn at ddau adroddiad cenedlaethol ac mae MWCS bellach yn disgwyl i'r holl unedau seiciatrig ble gellir defnyddio arwahaniad i gael polisïau arwahaniad yn eu lle. Fe gyhoeddwyd adroddiad ar y cyd gan MWCS a Chomisiwn Hawliau Dynol yr Alban, *Hawliau dynol yng ngofal iechyd meddwl yn yr Alban*, ym mis Medi.[47] Fe gwblhaodd MWCS darn o waith hefyd o'r enw *Tystysgrifau cadw brys heb gydsyniad swyddog iechyd meddwl*, sy'n dadansoddi'r defnydd o dystysgrifau cadw brys sydd wedi cael eu cyflwyno heb gydsyniad swyddog iechyd meddwl (gweithiwr cymdeithasol cymwys yn yr Alban), sy'n caniatáu cadw pobl mewn ysbyty am hyd at 72 awr.[48]

Fe gyhoeddodd Ofsted (Y Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau) fframwaith diwygiedig ar yr adolygiad ar y cyd o ganolfannau hyfforddiant diogel (STC) a gyflwynodd ddau ddyfarniad newydd ar wahân ar iechyd pobl ifanc ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr. Ers y cyhoeddiad, mae dau arolwg STC wedi cael eu cynnal ac fe gynhaliwyd arolygiadau personol dirybudd ychwanegol ym y tri chanolfan hyfforddiant diogel yn dilyn pryderon am Ganolfan Medway. Mae cyflwyniad y Rheoliadau newydd ar Gartrefi Plant ar 1 Ebrill 2015, a oedd yn cynnwys safonau ansawdd newydd, wedi cryfhau galluedd Ofsted i fynd ati gyda gwelliannau mewn cartrefi plant. Fe gwblhaodd hyn lansiad cydamserol fframwaith arolygu newydd Ofsted ar gyfer cartrefi plant. Mae'r fethodoleg ar gyfer arolygu cartrefi diogel i blant Lloegr (SCH) wedi'i ymgorffori yn y fframwaith ehangach hwn, gan ei wneud yn glir mai cartrefi i blant a phobl ifanc yw'r sefydliadau yn bennaf, er gwaethaf eu natur ddiogel.

47. MWCS a SHRC (Medi 2015) *Hawliau dynol yng ngofal iechyd meddwl yn yr Alban*, ar gael ar: www.mwcscot.org.uk/about-us/latest-news/human-rights-in-mental-health-care-in-scotland/ [cyrchwyd 01/11/16].

48. MWCS (Mehefin 2016) *Tystysgrifau cadw brys heb gydsyniad swyddog iechyd meddwl*, ar gael ar: http://www.mwcscot.org.uk/about-us/latest-news/new-report-scotlands-use-of-emergency-detention-without-the-consent-of-mental-health-officers/ [cyrchwyd 01/11/16].

Fe ymwelodd yr Awdurdod Gwella Rheoleiddio ac Ansawdd (RQIA) â'r 57 ward iechyd meddwl ac anabledd dysgu yng Ngogledd Iwerddon (NI) o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn, gan gynnal cyfanswm o 70 arolwg bwriadol ac ymatebol. Fe roddodd RQIA fethodoleg adolygu diwygiedig yn ei lle ar gyfer y gwasanaethau cleifion hyn yn 2016. Ar ben hynny, o dan Gorchymyn Iechyd Meddwl (NI) 1986, roedd RQIA yn gwirio carchariad cleifion, asesiad a ffurflenni cadw, ac mae gofyn i'r pum ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyflwyno'r rhain. Yn ystod y flwyddyn fe archwiliodd tua 10,250 o ffurflenni a chanfod cyfradd gwall o tua 5%. O ganlyniad i ymyriad gan RQIA, fe ddaeth carchariad 12 claf a oedd yn cael eu cadw yn groes i'r rheol i ben. Fe ymwelodd RQIA hefyd â phlant mewn llety diogel, ble roedd diffygion wedi cael eu hadnabod yn ansawdd y ddarpariaeth gofal; yn dilyn hyn fe aeth y darparwr gofal i'r afael â'r materion hyn. Fe ymwelodd ag ystafelloedd y ddalfa a charchardai mewn perthynas ag arolygiaethau perthnasol eraill, gan gynnwys Carchar Maghaberry ble codwyd nifer o bryderon arwyddocaol am ofal iechyd.

Mae Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon (NIPBICVS) yn parhau i fonitro cydymffurfiaeth Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon (PSNI) â Deddf Hawliau Dynol 1998. Yn dilyn argymhellion gan yr NPM, daeth gorsafoedd heddlu annynodedig yng Ngogledd Iwerddon o dan gylch gorchwyl statudol y Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa o fis Mai 2016. Fe ddarganfu ymwelwyr â'r ddalfa bod gan y sawl yn nalfa'r heddlu anghenion iechyd cymhleth yn aml. O ganlyniad, fe wnaed argymhelliad gan Gynghorydd Hawliau Dynol Annibynnol y Bwrdd Plismona yn Adroddiad Blynyddol Hawliau Dynol 2014, a oedd yn gofyn bod PSNI yn adrodd i Bwyllgor Perfformio'r Bwrdd ar gynnydd ei adolygiad o ofal iechyd yn ystafelloedd y ddalfa, a arweiniodd ar ddarparu staff arbenigol newydd a chynlluniau eraill am welliant.

Cydweithio rhwng aelodau'r NPM

Yn ogystal â chydweithio ar brosiectau thematig ar y cyd yr NPM, mae aelodau'r NPM yn cydweithio ar amrywiaeth eang o fentrau gyda'r nod o gryfhau eu cydymffurfiaeth gydag OPCAT a monitro carchariad.

Eleni, fe gytunwyd ar ddau brotocol newydd rhwng aelodau'r NPM gyda'r nod o atal a mynd i'r afael ag unrhyw sancsiynau ar ddial a allai ddigwydd yn dilyn cyswllt gyda monitoriaid yr NPM. Yng Ngogledd Iwerddon, fe lofnododd CJINI a'r IMB un protocol o'r fath yr un gydag Ombwdsmon y Carchardai. Yng Nghymru a Lloegr, fe lofnododd Carchardai EM a HMIC protocol gan ganolbwyntio'n benodol ar sancsiynau yn nalfa'r heddlu.

Yn yr Alban, fe ddatblygodd trefniadau cydweithio dros y flwyddyn, gyda'r CI a'r SHRC yn ymuno â HMIPS ar arolygon o garchardai. Fe gyhoeddodd MWCS a SHRC adroddiad ar y cyd ar hawliau dynol yng ngofal iechyd meddwl yn yr Alban.[49]

49. MWCS a SHRC (Medi 2015) *Hawliau dynol yng ngofal iechyd meddwl yn yr Alban*, ar gael ar: www.mwcscot.org.uk/about-us/latest-news/human-rights-in-mental-health-care-in-scotland/ [cyrchwyd 01/11/16].

Cyflwyno cynigion ac arsylwadau ar ddeddfwriaeth (erthygl OPCAT 19(c))

Mae aelodau'r NPM yn gweithio'n weithredol i gryfhau polisi'r llywodraeth sy'n berthnasol i'r lleoliadau cadw maen nhw'n eu monitro ac i'w swyddogaethau eu hunain. Ar ben hynny, eleni, fe gyflwynodd cydlynwyr yr NPM sylwadau cryno i ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith ar Alluedd Meddyliol a Cholli Rhyddid.

Roedd ymglymiad aelodau mewn ymgynghoriadau a datblygiad polisi llywodraethol yn cynnwys y canlynol:

- Fe gyfrannodd Ofsted, CCE a Charchardai EM yn helaeth at adolygiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfiawnder ieuenctid, gan dynnu sylw'r tîm arolygu at eu profiad a thystiolaeth o arolygon. Roedd hyn yn cynnwys argymhellion i symud tuag at ddatgomisiynu sefydliadau troseddwyr ifanc ar gyfer plant ac ailgyfeirio ethos canolfannau hyfforddi diogel.
- Fe ymrwymodd y sefydliadau hyn hefyd â Bwrdd Gwella Medway, gyda'r nod o hysbysu gwaith y Bwrdd a'i adroddiad terfynol i'r Ysgrifennydd Gwladol.
- Fe gyflwynodd CCE a Charchardai EM sylwadau ar ymgynghoriad ar leihau cyllideb y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, a oedd â goblygiadau ar gomisiynu cyfleusterau cadw ar gyfer plant a chyflwyno system newydd ar gyfer atal.
- Fe roddodd y CQC fewnbwn i'r Adran Iechyd ar Fil Plismona a Throsedd 2015–16, sy'n cynnwys nifer o newidiadau i'r pwerau o dan adrannau 136 a 136 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, gan gynnwys gwahardd y defnydd o gelloedd yr heddlu i gadw'r sawl o dan 18 a lleihau'r cyfnod uchafswm o garchariad.
- Fe gyfrannodd y CI at nifer o ymgynghoriadau sy'n berthnasol i leoliadau diogel a cholli rhyddid o fewn y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys: Galwad am Dystiolaeth (Bil) Cyfiawnder Cymunedol yr Alban (Awst 2015); Cynigion i greu trosedd o esgeulustod bwriadol neu driniaeth wael fwriadol mewn perthynas â gwasanaethau i blant o dan 18 mlwydd oed; Ymgynghori ar gydweithio ar gyfer pobl sy'n mynd ar goll yn yr Alban (Tachwedd 2015); Ymgynghori ar Adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn yr Alban ar Oedolion gydag Analluedd (Mawrth 2016); Ymgynghori ar Ddeddf Amddiffyn Grwpiau Agored i Niwed (Yr Alban) 2007: Adran 35(2) a (3), (Mawrth 2016); Ymgynghori ar roi Deddf Iechyd Meddwl (Yr Alban) 2015 a'r Rheoliadau Cysylltiedig (Rhan 1) ar waith,(Mai 2016); Ymgynghori ar Ddeddf Plant a Phobl Ifanc (Yr Alban) 2014: Rhan 1, Adrodd ar Hawliau Plant a Rhan 2 Cynllunio Gwasanaethau Plant (Mehefin 2016); Adolygiad o anabledd dysgu ac awtistiaeth yng nghyfraith iechyd meddwl yr Alban - ymgynghoriad cwmpasu (Gorffennaf 2016). Yn ei ymateb i ymgynghoriad ar estyniad pellach o gwmpas Deddf Rhyddid Gwybodaeth (Yr Alban) 2002 i fwy o sefydliadau ym mis Medi 2015, fe gytunodd y CI gyda'r cynigion i ymestyn cwmpas rhyddid gwybodaeth i garchardai y'u rheolir yn breifat wedi'u his-gontractio i gwblhau gwaith ar gyfer Gwasanaeth Carchardai'r Alban, ac i'r pum gwasanaeth llety diogel cyfredol i blant.
- Fe gyfrannodd HMIPS at ymgynghoriad Llywodraeth yr Alban ar y dybiaeth yn erbyn dedfrydau byr, gan gefnogi ymestyn y dybiaeth ar gyfer dedfrydau o hyd at 12 mis.

- Fe gyfrannodd ICVA ei brofiad a thystiolaeth i'r Adolygiad Annibynol ar Farwolaethau yn y Ddalfa, gan gyflwyno ymateb ysgrifenedig a chymryd rhan mewn cyfweliad.
- Fe weithiodd HIW a CSSIW yn agos gyda Llywodraeth Cymru i hysbysu a dylanwadu ar ffurf Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), fel y nodir uchod.
- Fe gyflwynodd HIW sylwadau ar y canlynol hefyd: ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith ar Alluedd Meddyliol a Cholli Rhyddid; Deddf Iechyd Meddwl Diwygiedig 1983, Cod Ymarfer i Gymru; Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl (2016-2019); a'r Concordat Gofal Iechyd Meddwl Brys.
- Fe ymatebodd Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon i ymgynghoriad gan Bwyllgor Cyfiawnder Cynulliad Gogledd Iwerddon mewn perthynas â Bil Cyfiawnder Rhif 2. Fe gafodd hefyd ei wahodd i ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyfiawnder ac fe gyflwynodd dystiolaeth mewn perthynas â Charchar EM Maghaberry a'r adroddiad negyddol diweddar gan Garchardai EM.
- Fe baratowyd dogfennau briffio gan MWCS ac fe gyflwynon nhw sylwadau ar addasiadau ar wahanol gamau o broses Bil Iechyd Meddwl (Yr Alban). Fe roddodd fewnbwn hefyd ar ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith yn yr Alban ar oedolion gydag anallued a bil drafft SLC. Fe gynigodd MWCS hefyd flaenoriaethau i Lywodraeth yr Alban ar gyfer y strategaeth iechyd meddwl sy'n cael ei datblygu. Roedd y rhain yn cynnwys mwy o ffocws ar ymagwedd seiliedig ar hawliau i ofal a thriniaeth iechyd meddwl, ac ar fwy o gydraddoldeb a thegwch gyda gwasanaethau ar gyfer gofal iechyd corfforol, o ran awyrgylch corfforol nifer o wardiau ysbyty a mynediad at wasanaethau penodol.
- Fe gyflwynodd Carchardai EM sylwadau ar amrediad o ymgynghoriadau ac ymholiadau, gan gynnwys Ymholiad Pwyllgor y Swyddfa Gartref ar sylweddau seicoweithredol newydd; Ymholiad y Pwyllgor Cyfiawnder ar droseddwyr sy'n oedolion ifanc; Gorchymyn y Gwasanaeth Carchardai diwygiedig (Rhif 1700) ar adolygu ac awdurdodi parhau i arwahanu a charchariad dros dro mewn llety arbennig; ymgynghoriad y Coleg yr Heddlu ar Ymarfer Broffesiynol Awdurdodedig ar Iechyd Meddwl; a nifer o Orchmynion Gwasanaethau Cadw'r Swyddfa Gartref.
- Fe ymatebodd yr IMBs a Charchardai EM i ymgynghoriad ar reolau arfaethedig yn llywodraethu cyfleusterau cadw tymor byr.
- Fe drafododd RQIA Gorchymyn Iechyd Meddwl (NI) 1986 gyda llywodraeth Gogledd Iwerddon a chynnig pynciau y dylid eu hystyried yn dilyn yr adolygiad o Orchymyn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (Ansawdd, Gwella a Rheoleiddio) (NI) 2003.

Cydweithio rhyngwladol

Fe adolygwyd cynnydd y DU yn rhoi'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol ar waith yn ystod y flwyddyn ac fe gyflwynodd dau aelod o'r NPM, Carchardai EM a HMIC, sylwadau i'r arolwg, gan dynnu sylw at nifer o ardaloedd a oedd yn cyfiawnhau sylw'r Pwyllgor Hawliau Dynol.[50] Yn ychwanegol at hyn, fe gynhaliodd y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn arolwg cyfnodol o'r DU, ac fe gyflwynodd Comisiynydd Plant Lloegr dystiolaeth ar gyfer hwn, ar y cyd â Chomisiynwyr Plant Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yn arsylwadau casgliadol terfynol y ddau Bwyllgor fe godwyd nifer o bryderon yn ymwneud â chadw, ac fe drafodwyd y rhain ymysg aelodau'r NPM.

50. http://www.nationalpreventivemechanism.org.uk/wp-content/uploads/2015/07/UK-NPM-Submission-to-the-UN-Human-Rights-Committee.pdf [cyrchwyd 01/11/16].

Fe ddarparodd aelodau o NPM y DU gyngor i Bwyllgor Cyngor Ewrop ar Atal Artaith cyn ac yn ystod ei ymweliad cyfnodol â Chymru a Lloegr ar ddiwedd y flwyddyn adrodd. Roedd yr ymweliad yn canolbwyntio ar asesu amodau cadw a thriniaeth pobl a gedwir mewn carchardai yn Lloegr, ac archwilio'r trefniadau diogelu a roddir i bobl sydd wedi colli'u rhyddid oherwydd yr heddlu. Roedd hefyd gan yr ymweliad ffocws penodol ar sefydliadau iechyd meddwl yn Lloegr am y tro cyntaf - seiciatreg cleifion preswyl sy'n oedolion a seiciatreg fforensig diogelwch canolig ac uchel - ac fe archwiliwyd materion yn ymwneud â phobl a gedwir o dan ddeddfwriaeth fewnfudo. Mae disgwyl i adroddiad y CPT gael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2017.

Yn ystod y flwyddyn, roedd yr NPM yn weithgar mewn nifer o brosiectau rhyngwladol a thrafodaethau yn ymwneud â'r NPM. Fe roddodd yr NPM fewnbwn sylweddol i mewn i brosiect Sefydliad Hawliau Dynol Ludwig Boltzmann a Chanolfan Hawliau Dynol Prifysgol Bryste ar 'Cryfhau'r Camau Dilynol ar argymhellion yr NPM yn yr UE', a chymryd rhan yn symposiwm y Sefydliad er Atal Artaith (APT) ar bobl lesbiad, hoyw, deurywiol, trawsrywiol a rhyngrywiol (LGBTI) sydd wedi colli'u rhyddid ym mis Mehefin 2015. Bu'r NPM gwrdd yn anffurfiol gyda NPM yr Iseldiroedd a'r Swistir ym mis Gorffennaf 2015 a mis Ionawr 2016 i drafod materion cyffredin yn ymwneud â chadw a monitro.

Fe wahoddwyd cydlynydd yr NPM i gymryd rhan yn Fforwm Lleiafrifoedd y Cenhedloedd Unedig ym mis Tachwedd 2015. Fe gyflwynodd hi sylwadau ar set ddrafft o argymhellion ar leiafrifoedd yn y system cyfiawnder ieuenctid mewn cyfarfod o arbenigwyr a chyflwyno araith ar brofiad y DU i aelodau'r Fforwm Lleiafrifoedd.

Bu aelodau'r NPM barhau i gyfnewid eu profiad gyda chyrff o ledled y byd a oedd â diddordeb mewn rhoi OPCAT ar waith a'r gwaith o fonitro carchariad.

- Fe groesawodd CJINI grŵp o gynrychiolwyr o Arolygiaeth Gyffredinol Libanus ym mis Ionawr 2016 a oedd â diddordeb, ymhlith pethau eraill yn eu rôl fel NPM a rhoi OPCAT ar waith. Ym mis Hydref 2015, fe rannodd CJINI ei brofiad o'r NPM a'r dulliau gweithio gyda thîm o'r Awdurdod Gwybodaeth Iechyd ac Ansawdd o Weriniaeth yr Iwerddon sy'n arolygu mannau cadw i blant.
- Fe drefnodd ICVA i grwp o bedwar cyfreithiwr o Ffiji, gyda'r ACT, i gysgodi ymweliad i ddalfa'r heddlu ym mis Mawrth 2016. Nod y profiad hwn oedd hysbysu eu gwaith ar ddiogeliadau cyfreithiol yn Ffiji.
- Yn ystod y flwyddyn, fe dderbyniodd Carchardai EM ymweliadau o Gymdeithas y Bar yn Tokyo, grwp o swyddogion carchar o Wcrain, swyddogion o lywodraeth Ffrainc, Comisiynydd Cenedlaethol Seland Newydd yn yr Adran Gywiriadau, a grwp o swyddogion carchar o Wganda yn ymweld â'r DU fel rhan o secondiad gyda Phrosiect Carchardai Affrica.
- Fe dderbyniodd cydlynwyd yr NPM grŵp o ymwelwyr o Swyddfa Twrnai Cyffredinol Awstralia a oedd yn cynllunio ar gyfer dynodiad NPM yn Awstralia ac fe rannon nhw eu profiadau o gydlynu NPM aml-gorff.

Hunanasesiad o'r NPM

Fel ddigwyddodd yn y ddwy flynedd flaenorol, eleni, fe gynhaliodd aelodau o'r NPM hunanasesiad yn seiliedig ar 'arf hunanasesu dadansoddol ar gyfer NPMs' SPT y Cenhedloedd Unedig, sydd â'r nod o roi cyfle i NPMs archwilio eu heffeithiolrwydd ac effeithlonrwydd.[51] Eleni, fe gwblhaodd 16 o'r 20 aelod yr hunanasesiad, sy'n bwydo i mewn i'w hymdrechion eu hunain i gryfhau eu cydymffurfiad ag OPCAT, ac mae hefyd yn hysbysu cynllunio busnes yr NPM. Fe gafodd ymatebion mwyafrif yr aelodau eu hadolygu gan gyfoedion o fewn aelodau eraill yr NPM fel modd o rannu dysgu a darparu adolygiad allanol adeiladol.

Fe adroddodd aelodau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â 86% o gwestiynau'r hunanasesiad, a'u bod ddim yn cydymffurfio ar hyn o bryd â 1.8% o'r cwestiynau. Mae hyn yn dangos tueddiad ar i fyny blwyddyn ar ôl blwyddyn, o gydymffurfiaeth llawn o 79.5% yn 2013-14 a 82.8% yn 2014-15; gallai hyn ddangos mwy o ymwybyddiaeth o gydymffurfiaeth ag OPCAT a/neu gynnydd gwirioneddol yn y cydymffurfiaeth. Roedd atebion i gwestiynau yn ymwneud â swyddogaeth gydlynu'r NPM hefyd yn dangos cynnydd cyson.

Yn gyffredinol, roedd aelodau'r NPM yn ystyried eu hunain i fod yn cydymffurfio yn well mewn cwestiynau yn ymwneud ag adrodd, cyhoeddi a dosbarthu gwaith yr NPM (cydymffurfiaeth lawn 89.6%) nag mewn gwaith yn ymwneud ag achosion unigol, gan gynnwys gwersi a ddysgwyd, gwaith dilynol. gweithdrefnau camau brys a dialon (cydymffurfiaeth lawn 80.6%).

Mae angen rhagor o waith i gynyddu cydymffurfiaeth gyda'r cwestiwn hunanasesu yn ymwneud ag a oes gan aelodau'r NPM gydbwysedd rhyw a chynrychiolaeth ddigonol o grwpiau lleiafrifol ethnig yn eu timau ymweld (C1.17). Dau aelod yn unig (12.5% o'r ymatebwyr) raddiodd eu hunain fel cydymffurfio'n llawn gyda'r cwestiwn hwn, ac fe nododd yr 14 ymatebwr arall eu bod yn cydymffurfio'n rhannol. Mae hyn yn cynrychioli gwaethygiad dros amser (y llynedd roedd 40% o'r ymatebwyr yn ystyried eu hunain i fod yn cydymffurfio'n llawn), a allai olygu mwy o ymwybyddiaeth ymysg aelodau o'r angen i wneud mwy i hyrwyddo amrywiaeth o fewn eu sefydliadau.

51. Gellir dod o hyd i holiadur hunanasesu NPM y DU yn Atodiad 8 o'r *Pumed Adroddiad Blynyddol*, ar gael ar: http://www.nationalpreventivemechanism.org.uk/wp-content/uploads/2015/05/NPM-5th-Annual-Report-2013-14.pdf [cyrchwyd 01/11/16]. Mae esboniad llawn o'r fethodoleg hunanasesu ar gael ar: http://www.nationalpreventivemechanism.org.uk/wp-content/uploads/2015/08/UK-NPM-self-assessment-write-up.pdf [cyrchwyd 01/11/16].

Adran pedwar

Edrych ymlaen at 2016–17



Mae'r Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol (NPM) wedi cytuno ar yr amcanion canlynol ar gyfer ei waith yn 2016-17:

- Cryfhau'r amddiffyniad o'r sawl yn y ddalfa trwy waith cydlynol a chydweithredol ar faterion perthnasol;
- Cydymffurfio yn unigol ac ar y cyd gyda mandad yr NPM a sefydlwyd gan y Protocol Dewisol ar y Confensiwn yn erbyn Artaith (OPCAT); a
- Codi ymwybyddiaeth o'r NPM - yn sefydliadol, yn y DU ac yn rhyngwladol.

Bydd cadeirydd annibynnol cyntaf yr NPM yn dechrau yn y rôl yn gynnar yn y flwyddyn busnes a bydd aelodau'n treulio amser yn ei ymsefydlu dros y flwyddyn ac yn cynllunio cyfeiriad yr NPM at y dyfodol.

Ymhlith y prosiectau penodol bydd yr NPM yn ymgymryd â hwy yn ystod y flwyddyn, mae:

- Cwblhau cyfarwyddyd ar fonitro arwahaniad yn y ddalfa;
- Ymgymryd ag ymarfer mapio'r ddalfa i adnabod nifer y bobl yn y ddalfa yn y DU ar unrhyw adeg penodol;
- Cychwyn ar brosiect thematig nesaf yr NPM ar y trosglwyddiadau a'r llwybrau rhwng gwahanol fathau o ddalfeydd, a fydd yn canolbwyntio ar lwybrau o ddalfa'r heddlu yn deillio o faterion iechyd meddwl, trosglwyddiadau rhwng darpariaeth warchodol plant ac oedolion, llwybrau rhwng sefydliadau iechyd meddwl diogel, a llwybrau rhwng carchardai/IRCs a sefydliadau iechyd meddwl;
- Gweithio gyda Phrifysgol Bryste ar brosiectau yn ymwneud â rôl cyrff gwadd gwirfoddol wrth fodloni goblygiadau'r NPM, ac adnabod sut caiff digwyddiadau o driniaeth wael eu cofnodi a'r mecanwaith sydd ar gael iddynt fynd i'r afael â hwy;
- Cyfrannu at adolygiad achlysurol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Artaith o'r DU;
- Datblygu cynlluniau a'u rhoi ar waith er mwyn cryfhau llywodraethu'r NPM a chydymffurfiaeth ag OPCAT, gan weithio'n agos gyda swyddogion y llywodraeth i gyflawni hyn;
- Sefydlu ffrwd yr NPM yn y DU ar Twitter.

Adran pump
Atodiadau



Atodiad 1

Geirfa

CAT	Confensiwn yn erbyn Artaith
CCE	Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr
CI	Yr Arolygiaeth Gofal
CJINI	Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon
CPT	Y Pwyllgor er Atal Artaith (Cyngor Ewrop)
CQC	Y Comisiwn Ansawdd Gofal
CSC	Canolfan goruchwyliaeth agos
CSSIW	Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
FCO	Y Swyddfa Dramor a Chymanwlad
GOOD	Trefn neu ddisgyblaeth dda
HIW	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
HMIC	Arolygiaeth Cwnstabliaeth ei Mawrhydi
HMICS	Arolygiaeth Cwnstabliaeth ei Mawrhydi yn yr Alban
Carchardai EM	Arolygiaeth Carchardai ei Mawrhydi
HMIPS	Arolygiaeth Carchardai ei Mawrhydi ar gyfer yr Alban
HMP	Carchar ei Mawrhydi
ICVA	Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd
ICVS	Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yr Alban
IMB	Bwrdd Monitro Annibynnol
IMBNI	Byrddau Monitro Annibynnol (Gogledd Iwerddon)
IRC	Canolfan cadw mewnfudwyr
IRTL	Adolygwr Annibynnol i Ddeddfwriaeth Terfysgaeth
LO	Arsyllwyr Lleyg
MHA	Deddf Iechyd Meddwl 1983
MWCS	Comisiwn Lles Meddwl yr Alban
NIPBICVS	Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon
NOMS	Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr
NPM	Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol
OSCE	Sefydliad Diogelwch a Chydweithrediad yn Ewrop
Ofsted	Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau
OPCAT	Protocol Dewisol ar y Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosb Creulon, Annynol neu Ddiraddiol
PACE	Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984
Nodweddion gwarchodedig	Y sail sy'n esbonio pam fod anffafriaeth yn anghyfreithlon (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2010)
PSO	Gorchymyn Gwasanaeth y Carchardai
RQIA	Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd
SHRC	Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban

SPT	Is-bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Atal Artaith
SCH	Cartref Diogel i Blant
STC	Canolfan Hyfforddiant Diogel
YJB	Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
YOI	Sefydliad Troseddwyr Ifanc

Atodiad 2

Rhagor o wybodaeth am NPM y DU

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am NPM y DU, cysylltwch â chydlynydd yr NPM.

Louise Finer
Cydlynydd y Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol
Arolygiaeth Carchardai ei Mawrhydi
Victory House
Llawr 6
30–34 Kingsway
Llundain WC2B 6EX

Ffôn: 020 3681 2800
Ffacs: 020 7035 2141

E-bost: louise.finer@hmiprisons.gsi.gov.uk

Gwefan: http://www.nationalpreventivemechanism.org.uk/

Am ragor o wybodaeth am aelod penodol, efallai hoffech gysylltu â nhw'n uniongyrchol.

Daw'r ddelwedd a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn o *Loneliness*, darlun gan glaf yng Nghanolfan Bracton, uned iechyd meddwl diogel (hawlfraint © 2016 Ymddiriedolaeth Koestler, cedwir pob hawl). Mae Ymddiriedolaeth Koestler yn elusen celfyddydau yn y carchar, sy'n ysbrydoli troseddwyr, cleifion diogel a'r sawl yn y ddalfa i gymryd rhan yn y celfyddydau, gweithio am gyflawniad a thrawsnewid eu bywydau.
Am ragor o wybodaeth, ewch i: www.koestlertrust.org.uk

Cynhyrchwyd gan Design102,
Cyfarwyddiaeth Cyfathrebu a Gwybodaeth, y Weinyddiaeth Gyfiawnder

ISBN 978-1-4741-3927-4

9 781474 139274